

Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rhagfyr 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rhagfyr 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AC
Plaid Cymru



Alun Davies AC
Llafur Cymru



Mike Hedges AC
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig



Mark Reckless AC
Plaid Brexit

Cynnwys

Casgliadau ac Argymhellion.....	5
1. Cyflwyniad	7
2. Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2018-19	9
3. Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019	17
4. Cynllun Blynnyddol ac Adroddiad Interim 2019-20	19
5. Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021	23
Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	46
Atodiad 2: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru – Amcangyfrif a Addaswyd 2020-21	47

Casgliadau ac Argymhellion

Casgliad 1. Yn amodol ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyhoeddiadau a ganlyn a ddarperir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiwn graffu flynyddol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19;
- Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019;
- Cynllun Blynyddol 2019-20;
- Adroddiad Interim – Asesiad o gynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynyddol 2019-20 yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2019;
..... Tudalen 8

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19.
..... Tudalen 16

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad gan RSM UK Audit LLP, a ddaeth i'r casgliad bod cyfrifon 2018-19 yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Swyddfa Archwilio Cymru. Tudalen 18

Casgliad 4. Mae'r Pwyllgor yn nodi Cynllun Blynyddol 2019-20 ac Adroddiad Interim 2019-20 ac mae'n fodlon ar y ddwy ddogfen hyn. Tudalen 21

Casgliad 5. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr Amcangyfrif a addaswyd ar gyfer 2020-21, a geir fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn. Tudalen 44

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn falch bod dull mwy cynhwysol yn dod i'r amlwg mewn perthynas â rhyngweithiau'r Bwrdd â rhanddeiliaid a byddai'n croesawu diweddariad ar sut y mae'r Strategaeth Rhanddeiliaid yn gwella dealltwriaeth y Bwrdd o'i rhanddeiliaid. Tudalen 16

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Adroddiadau Blynyddol, yn y dyfodol, yn nodi buddion tymor hir, gan gynnwys arbedion parhaus, unrhyw daliad cynllun ymadael gwirfoddol. Tudalen 16

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu diweddariad yn ei hadroddiad blynyddol nesaf ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad fel diffygion mewn rheolaeth fewnol..... Tudalen 18

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adroddiad blynyddol nesaf Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi'n glir wybodaeth gymaradwy ar gyfer ei dangosyddion yn 2018-19 ochr yn ochr â'r canlyniadau ar gyfer ei dangosyddion diwygiedig yn 2019-20, er mwyn sicrhau y gellir olrhain y mesurau â'r perfformiad gwaethaf.Tudalen 21

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth adolygu mesurau perfformiad allweddol, y dylai Swyddfa Archwilio Cymru sicrhau bod y gallu i olrhain perfformiad yn y dyfodol yn erbyn y flwyddyn flaenorol yn cael ei ddiogelu.Tudalen 22

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'w Strategaeth Ystadau ddatblygu, gan gynnwys yr effaith ar raglen gyfalaf SAC a thargedau arbedion y cytunwyd arnynt.....Tudalen 44

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am ei gwaith gyda chyrff archwilio partner mewn perthynas â'r rhaglen Dadansoddeg Data.....Tudalen 44

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Amcangyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol, yn y dyfodol, yn nodi costau a manteision a ddisgwyliar ac a wireddir ar gyfer y rhaglen Dadansoddeg Data.Tudalen 44

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddisodli ei system archwilio ariannol, gan gynnwys arbedion ac effeithlonrwydd disgwylidig o'r buddsoddiad hwn.Tudalen 44

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, cyn i'r Cynllun Ffioedd ar gyfer 2020-21 gael ei osod gerbron y Cynulliad, y caiff manylion eu rhoi i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch sut y mae'r cynnydd £240,000 mewn incwm ffioedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gost o wneud gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.Tudalen 45

1. Cyflwyniad

Cefndir Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

1. Cafodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.¹ Roedd y Ddeddf yn rhagnodi bod swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn parhau ac yn creu corff newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Roedd hefyd yn nodi trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol a SAC.
2. Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, yn ogystal â Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu SAC. Mae SAC yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, yn dal ac yn darparu adnoddau ac yn codi ffioedd ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a SAC. Cynrychiolir SAC gan Fwrdd, sy'n cynnwys Cadeirydd anweithredol, aelodau anweithredol eraill, yr Archwilydd Cyffredinol, aelod a benodir o blith y gweithwyr cyflogedig a dau aelod a etholir o blith y gweithwyr cyflogedig.

Trefniadau atebolrwydd a llywodraethu

3. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o swyddogaethau ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad). O dan Adran 28 o'r Ddeddf, caiff y Cynulliad wneud darpariaeth drwy'r Rheolau Sefydlog ynghylch arfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan y Ddeddf, gan gynnwys "dirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, i bwyllgor neu is-bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol neu i gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath".² Yn unol â Rheol Sefydlog 18.10, dirprwywyd goruchwyllo SAC i'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor).³
4. Ar 7 Tachwedd 2019, trafododd y Pwyllgor y cyhoeddiadau a ganlyn a chymerodd dystiolaeth gan Adrian Crompton, yr Archwilydd Cyffredinol, Isobel Everett, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, a dau swyddog SAC ar y cyhoeddiadau a ganlyn:

- Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021;

¹ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

³ Cofnodion y Pwyllgor Busnes, 1 Hydref 2013

- Adroddiad Interim – Asesiad o gynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynnyddol 2019-20 yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2019;
- Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2018-19;
- Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 (Saesneg yn unig);
- Cynllun Blynnyddol 2019-20

5. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried cynllun ffioedd drafft 2020-21 SAC.

Casgliad 1. Yn amodol ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyhoeddiadau a ganlyn a ddarperir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiwn graffu flynyddol:

- Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2018-19;
- Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019;
- Cynllun Blynnyddol 2019-20;
- Adroddiad Interim – Asesiad o gynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynnyddol 2019-20 yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2019;

2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19

6. Gosodwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2018-19⁴ gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 14 Mehefin 2019. Paratôdd yr Archwilydd Cyffredinol, fel Swyddog Cyfrifyddu SAC, y Cyfrifon ar gyfer 2018-19 yn unol ag Atodlen 1 i'r Ddeddf. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018-19 ei baratoi ar y cyd rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC, yn unol ag Atodlen 2 i'r Ddeddf.⁵

7. Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad, yr Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol.

8. Mae trosolwg yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod SAC, yn 2018-19, wedi darparu ei rhaglen archwilio gyfan a'i bod hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth drawsnewid y ffordd y mae'n darparu'r rhaglen honno. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

“Wrth edrych ymlaen, rydym yn amcanu at adeiladu ar y momentwm a fagwyd trwy ein gwaith yn 2018-19 a datgloi ein potensial llawn fel ysgogydd newid a gwelliant wrth graidd gwasanaethau cyhoeddus trwy wireddu'r uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Blynyddol newydd.”⁶

9. Can nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gobeithio datgloi potensial' ei swyddfa, gofynnodd y Pwyllgor am yr hyn a oedd yn dal y sefydliad yn ôl yn ei farn ef. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

“I think that we do a fantastic job at the moment in terms of delivering our statutory responsibilities and delivering the suite of studies and support and programmes that we do at the moment.

Where we're less good, in my view, is seeing the synergies and connections that exist between all of that—seeing the picture that emerges because of our unique perspective across the whole of the public service...I think that there's an awful lot more that we can do in surfacing much of the richness of data and insight that exists within our audit of accounts work. So, those are the areas that I want to unleash.”⁷

⁴ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19

⁵ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

⁶ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 9

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraffau 153-154

10. Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw bod cynllun blynyddol ac uchelgeisiau'r Bwrdd yn canolbwyntio ar godi gwelededd ac effaith y sefydliad a'r gwaith y maent yn ei wneud a gwneud mwy i gefnogi'r Cynulliad, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd yn ehangach. Nododd hefyd fod Bwrdd y sefydliad wedi cael ymateb cadarnhaol iawn i'r cyfarwyddyd newydd hwnnw.⁸

Perfformiad

11. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod y sefydliad wedi cyflawni 11 o'i 26 o ddangosyddion perfformiad yn 2018-19 (o'i gymharu â 22 o 35 yn 2017-18⁹).

12. Mae tri mesur wedi'u dosbarthu fel rhai "coch", sy'n golygu bod angen gwelliant sylweddol. Mae angen gwella pum mesur arall ac roedd SAC yn agos at gyrraedd ei tharged ar gyfer saith arall.¹⁰

13. Un dangosydd yr oedd angen ei wella'n sylweddol oedd "Arweinyddiaeth a Diwylliant" (yn ymwneud â data o'r arolwg staff a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018). Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi mai'r sgôr gyffredinol o'i arolwg staff oedd 67 y cant, a oedd yn "gryf o'i gymharu â chyfartaledd Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil".¹¹

14. Pan gafodd ei herio ar berfformiad y sefydliad yn 2018-19, o ystyried mai dim ond 11 o'i 26 o dargedau perfformiad a gyrhaeddwyd, dywedodd Cadeirydd SAC y canlynol:

"...inevitably, with the KPIs, some of them mean more...if we miss the target on website hits, for instance, I'm not going to worry. I'm going to worry, though, if quality dips. I'm very keen to get better KPIs around impact."¹²

15. Mewn perthynas â'r dangosydd mai dim ond 42 y cant o staff oedd yn teimlo'n gadarnhaol am arweinyddiaeth a rheoli newid, esboniodd Cadeirydd SAC fod y canlyniad hwn yng nghyd-destun archwilydd cyffredinol newydd ac wrth ddisgwyl gweledigaeth ac uchelgeisiau'r Bwrdd.¹³

⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraffau 155-156

⁹ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18, tudalen 16

¹⁰ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 14

¹¹ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 33

¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 160

¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 163

16. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn teimlo bod diffyg eglurder o ran cyfrifoldeb a strwythurau ychydig yn anniben yn eu harweinyddiaeth a'u rheolaeth yn sail i'r ymatebion i'r arolwg staff.¹⁴

17. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod, o ganlyniad i'r arolwg staff, wedi newid aelodaeth yr uwch dîm arwain i adlewyrchu cydbwysedd a strwythur cyffredinol y sefydliad. Parhaodd fel a ganlyn:

"I've also brought onto that team a number of staff who are more junior, at below director level. Indeed, one of them is one of our graduate trainees. So, I opened up an expression of interest exercise to all staff in the organisation to join the executive leadership team—without pay, but just to contribute to the organisation. I was bowled over by the response to that, and in the early months of observing that myself, I've been delighted by the dynamism and energy and change of atmosphere that that's brought."¹⁵

18. Can gyfeirio at reoli newid, roedd yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod yr arolwg staff yn hollol gywir ac nad yw'r sefydliad wedi bod yn wych am reoli newid mewn ffordd gydlynol, gan dynnu sylw bod rheolwr rhaglen newid newydd wedi'i benodi.¹⁶

19. O ran canlyniadau'r arolwg yn ymwneud â threfniadau dysgu a datblygu, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y bydd yn siomedig os na fydd y ffigurau'n gwella, o ystyried yr ymdrech dros y flwyddyn ddiwethaf.¹⁷

20. Gofynnodd y Pwyllgor am farn yr Archwilydd Cyffredinol am ddiwylliant SAC a'i dull arwain a rheoli ei hun. Can gydnabod bod natur gwaith SAC yn golygu mai sefydliad hierarchaidd ydyw, esboniodd ei fod yn ceisio grymuso pobl yn fwy i wneud penderfyniadau a gweithredu drostynt eu hunain:

"The quality of individual we have in the organisation from top to bottom is exceptional and I believe we've got plenty of control, structure and governance in place to trust people a little more than we have in the past, and that's a big thrust of what we're trying to achieve at the moment. And that, in turn, of course, delivers efficiencies."¹⁸

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 164

¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraffau 165

¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 167

¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 173

¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 180

Llywodraethu

Bwrdd SAC

21. Cwblhaodd Bwrdd SAC hunanasesiad o'i effeithiolrwydd a thrafodwyd y canlyniadau ym mis Mawrth 2019. Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi'r canlynol:

“Roedd ei fesuriad yn dynodi bod ei effeithiolrwydd yn yr ystod rhwng gweddol effeithiol a hynod effeithiol ar draws pob agwedd ar asesu ac roedd wedi'i argyhoeddi ar y cyfan na wnaeth y canlyniadau ddatgelu unrhyw beth annisgwyl. Roedd nifer o gamau gweithredu eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd y nodwyd fod angen eu gwella, yn anad dim mewn perthynas â datblygu'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y Cynllun Blynyddol newydd.”¹⁹

22. Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn awgrymu bod lle i wella ehangder ac amseroldeb y wybodaeth a gaiff y Bwrdd²⁰ (nodwyd hyn hefyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18).²¹

23. Dywedodd Cadeirydd SAC wrth y Pwyllgor fod hunanasesiad y Bwrdd yn nodi'r angen i wella'r cysylltiad rhwng ei strategaeth a'i berfformiad ymhellach, sydd wedi arwain at gynllun blynyddol wedi'i ailwampio ac adolygiad o ddangosyddion perfformiad allweddol. Tynnodd yr hunanasesiad sylw hefyd nad oedd y bwrdd mor glir ag y gallai fod ynglŷn â'i awydd am risg, sydd wedi arwain at gytuno ar gofrestr risg strategol sydd wedi'i hadnewyddu'n sylweddol.²²

24. Soniodd Cadeirydd SAC hefyd y bu tensiynau o'r blaen mewn perthynas â rôl y Bwrdd gyda rhanddeiliaid:

“The board was very much asked not to interact with stakeholders because it could compromise the auditor general role. Adrian is far more relaxed; he knows he has, I think, a competent board, but we're going to try and codify that more specifically through the stakeholder strategy.”²³

¹⁹ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 58

²⁰ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 57

²¹ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18, tudalen 56

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 213

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 219

Llywodraethu corfforaethol

25. Mae Pwyllgor Rheoli'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi cyngor ac arweiniad iddo. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi fel a ganlyn:

“Tuag at ddiwedd y flwyddyn fe gyhoeddais fy nghynigion i newid yr aelodaeth ac ailbennu'r ffocws o ran diben y Pwyllgor Rheoli ac rwy'n disgwyl gweithredu'r newidiadau hynny yn 2019-20.”²⁴

26. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol mai nod newid ffocws y Pwyllgor Rheoli yw ceisio mynd i'r afael â strwythurau rheoli beichus ac anniben, gwneud penderfyniadau mewn modd araf a diffyg eglurder ac atebolrwydd, gan ychwanegu'r canlynol:

“The step that I took myself to bring in the employee membership was designed just to give me an entirely fresh set of voices around the table, some fresh perspective and a change in the environment of that group, but also the message that it sends to the organisation as a whole that the senior leadership team is not, in some way, a bunch of the senior staff who lock themselves away in a room and take great decisions.”²⁵

27. Er mai dim ond ers dechrau'r haf y mae'r newidiadau wedi bod ar waith, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod y trefniadau newydd yn symud i'r cyfeiriad cywir.²⁶

Risg ac archwilio mewnol

28. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod archwilwyr mewnol SAC (PricewaterhouseCoopers LLP) wedi cyhoeddi chwe adroddiad archwilio mewnol yn 2018-19. Sgoriwyd un o'r adroddiadau hynny, “llywodraethu seiberddiogelwch ac asedau TGCh”, yn risg uchel ac mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi'r canlynol:

“Nid yw'r trefniadau llywodraethu ar gyfer seiberddiogelwch wedi'u ffurfioli, ac ymdrinnir â'r risg mewn modd ad hoc braid.”²⁷

29. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Pwyllgor fod y Bwrdd wedi cael hyfforddiant a bod awydd am risg wedi'i ddarganfod ynghylch seiberddiogelwch, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyffredinol a hyfforddiant i staff yn sgil argymhellion yr adolygiad. Tynnodd sylw hefyd at adolygiad trydydd

²⁴ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 53

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 202

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 204

²⁷ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 62

parti o systemau a gweithdrefnau, ochr yn ochr â hunanasesiad yn erbyn canllawiau gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol. O ganlyniad i hynny, penderfynodd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg SAC lefel risg ganolig yn gyffredinol. Fodd bynnag, cydnabu amgylchedd deinamig seiberddiogelwch sy'n newid yn gyflym iawn a'r cais am gyllid ychwanegol yn Amcangyfrif 2020-21.²⁸

Staff a thaliadau

Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

30. Mae'r Adroddiad Blynnyddol yn nodi bod cyfanswm gwariant refeniw gros SAC yn 2018-19 £240,000 (1.1 y cant) yn is na'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer y flwyddyn, gan nodi ei bod wedi defnyddio arbedion staffio a chostau eraill o £384,000 a grëwyd yn ystod y flwyddyn i ariannu cynllun ymadael gwirfoddol (VES). Mae'r Adroddiad Blynnyddol yn nodi bod y VES "yn cyd-fynd ag ymrwymadau mwy hirdymor ar gyfer cynllunio'r gweithlu" ac yn amcangyfrif y byddai'n creu £242,000 mewn arbedion blynnyddol yn y dyfodol.²⁹

31. Cytunwyd ar wyth pecyn ymadael yn 2018-19 (o gymharu hynny â saith pecyn ymadael yn 2017-18).³⁰

32. Prisiwyd un swydd a oedd yn destun VES ar £161,000. Mae'r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn rhagweld y bydd arbedion sy'n gysylltiedig â'r cynllun ymadael hwn yn arwain at adennill cost y taliad iawndal o fewn 17 fis.³¹

33. Wrth graffu ar Adroddiad Blynnyddol 2017-18 y llynedd, nododd y cyn Archwilydd Cyffredinol a SAC y bu problemau gydag ymadawiadau a brisiwyd yn uwch na £95,000 a oedd wedi effeithio ar faint o waith craffu a wnaeth y Pwyllgor Rheoli ar y penderfyniad i gytuno ar y pecynnau VES hynny. Gwnaethant esbonio y byddai ymarfer dysgu ar ôl y prosiect i drafod y problemau hynny.³²

34. O ran yr amcanion y tu ôl i'r VES a sut mae hyn yn dangos y defnydd gorau o adnoddau, dywedodd Cadeirydd SAC y canlynol:

"...there has to be a rigorous business case produced, because any such exit has to align with the auditor general's workforce requirements. Those two senior staff left and have not been replaced. The annual

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraffau 223-228

²⁹ Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 30

³⁰ Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 80

³¹ Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 79

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Gorffennaf 2018, paragraff 39

savings from the two are £230,000 per year, and in both cases, payback was achieved in less than 16 months. It is worth saying that all our exit packages are absolutely in line with the civil service compensation scheme.”³³

35. Cadarnhaodd Cadeirydd SAC y caiff pob achos busnes ei drafod gan y Tîm Arwain Gweithredol, gyda Phwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol SAC yn craffu ar ymadawiadau gwerth mawr ac yn gwneud argymhelliad i'r Bwrdd.³⁴

Strwythur staff

36. Mae nifer gyffredinol y staff yn SAC wedi cynyddu naw i 264 o gymharu hyn â 2017-18. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad mewn staff parhaol a chynnydd yn y rhai sydd ar gcontractau cyfnod penodol. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod y cynnydd cyffredinol yn nifer y staff yn adlewyrchu hyfforddeion graddedig a phrentisiaid ychwanegol a recriwtiwyd yn ystod y flwyddyn ar gcontractau hyfforddi cyfnod penodol.³⁵

37. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi mai contractwyr sy'n gwneud 10 y cant o raglen waith SAC, gan nodi bod SAC wedi penderfynu peidio â gwahodd tendrau am y gwaith hwn y tu hwnt i 2020.

38. Mae'r ffactorau sy'n sbarduno'r penderfyniad hwnnw'n cynnwys gostyngiad rhagamcanol ym maint gwaith archwilio'r sector cyhoeddus, rhwymedigaethau dan Safonau'r Gymraeg ac ansicrwydd ynghylch strwythurau llywodraeth leol.³⁶

39. Hefyd, rhoddodd SAC wybod i'r Pwyllgor ym mis Medi 2019 o'i bwriad i gomisiynu ei harchwilwyr allanol i gynnal astudiaeth gwerth am arian ar ei chynllun lwfansau teithio.

Safbwynt y Pwyllgor

40. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod SAC wedi cyflawni ei rhaglen archwilio'n llwyddiannus yn 2018-19 ac yn croesawu ffocws y Bwrdd ar godi gwelededd ac effaith y sefydliad. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf yr Archwilydd Cyffredinol yn ei swydd a'i ddull o hyrwyddo diwylliant o rymuso yn SAC yn galonogol.

³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 232

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 233

³⁵ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 81

³⁶ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 37

41. Er ei bod yn siomedig mai dim ond 11 o'r 26 o ddangosyddion perfformiad a gyflawnwyd yn 2018-19, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r dangosyddion â'r perfformiad gwaethaf. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn nodi ailgysoni'r uwch dîm arwain ac o'r farn bod cynnwys staff islaw lefel Cyfarwyddwr, a'r safbwyntiau y gallai hynny ddod â hwy, yn galonogol. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld effaith y trefniadau newydd hyn.

42. Can nodi canlyniadau hunanasesiad y Bwrdd, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r problemau sy'n ymwneud â'r cysylltiad rhwng ei strategaeth a'i berfformiad, ei awydd am risg a'i berthynas â rhanddeiliaid.

43. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd i ymdrin â'r adroddiad archwilio mewnol, a nododd fod llywodraethu seiberddiogelwch ac asedau TGCh yn risg uchel, ac mae'n cydnabod bod adolygu ac atgyfnerthu seiberddiogelwch yn parhau.

44. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â'r arbedion blynyddol o ddau ymadawiad gwirfoddol gwerth mawr yn 2018-19. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod tryloywder am yr amcanion a'r arbedion o gynlluniau ymadael gwirfoddol yn allweddol i ddangos y defnydd gorau o adnoddau.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn falch bod dull mwy cynhwysol yn dod i'r amlwg mewn perthynas â rhyngweithiau'r Bwrdd â rhanddeiliaid a byddai'n croesawu diweddariad ar sut y mae'r Strategaeth Rhanddeiliaid yn gwella dealltwriaeth y Bwrdd o'i rhanddeiliaid.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Adroddiadau Blynyddol, yn y dyfodol, yn nodi buddion tymor hir, gan gynnwys arbedion parhaus, unrhyw daliad cynllun ymadael gwirfoddol.

3. Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

- 45.** Mae'r Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad³⁷ yn crynhoi canfyddiadau allweddol RSM UK Audit LLP, archwilwyr SAC, mewn cysylltiad ag archwilio datganiadau ariannol SAC mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn ofyniad o dan Atodlen 1 i'r Ddeddf.³⁸
- 46.** Mae adroddiad yr archwilwyr allanol yn darparu barn glir am gyfrifon SAC.
- 47.** Ystyriodd yr archwiliad dri maes a ystyrir yn rheolaidd:
- rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol;
 - cydnabod incwm, gwaith ar droed ac incwm gohiriedig;
 - enw da.
- 48.** Yn ogystal, archwiliodd yr archwiliad ystyriaethau adrodd ariannol Brexit a'r system gyfrifyddu newydd. Ni nodwyd problemau gyda'r meysydd hyn yn ystod yr archwiliad.
- 49.** Nodwyd tri maes gan yr archwilwyr allanol fel diffygion mewn rheolaeth fewnol. Nodir y rhain isod, ochr yn ochr â chamau SAC i fynd i'r afael â'r broblem honno:
- **Hysbysiad o newidiadau mewn ffioedd:** Un achos lle na roddwyd gwybod i'r tîm cyllid am gynnydd mewn ffioedd y cytunwyd arno, gan arwain at danddatganiad refeniw. Mae SAC yn bwriadu cryfhau'r broses hon.
 - **Gwybodaeth a gedwir ar liniaduron personol:** Nododd yr archwilwyr allanol fod lle i egluro polisi diogelwch gwybodaeth SAC. Bydd SAC yn adolygu ei pholisïau ac yn cyfathrebu â staff.
 - **Cofrestr buddiannau:** Cafwyd rhai datganiadau ond ni chawsant eu cyhoeddi ar-lein eto. Mae Tîm Cyfraith a Moeseg SAC yn coladu

³⁷ Adroddiad Terfynol RSM UK Audit LLP ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 (Saesneg yn unig).

³⁸ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

datganiadau ar gyfer unigolion perthnasol gyda'r bwriad o'u cyhoeddi ym mis Mehefin 2019.³⁹

50. Nododd yr archwilwyr allanol gamddatganiadau â gwerth cyfanredol £122,000 (net), addasiadau yr adlewyrchwyd ar eu cyfer yn natganiadau ariannol 2018-19.⁴⁰

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad gan RSM UK Audit LLP, a ddaeth i'r casgliad bod cyfrifon 2018-19 yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Swyddfa Archwilio Cymru.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu diweddariad yn ei hadroddiad blynyddol nesaf ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad fel diffygion mewn rheolaeth fewnol.

³⁹ Adroddiad Terfynol RSM UK Audit LLP ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, tudalennau 11-12 (Saesneg yn unig)

⁴⁰ Adroddiad Terfynol RSM UK Audit LLP ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, tudalen 10 (Saesneg yn unig)

4. Cynllun Blynyddol ac Adroddiad Interim 2019-20

51. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC gyhoeddi Cynllun Blynyddol ac o leiaf un Adroddiad Interim bob blwyddyn.⁴¹

52. Mae Cynllun Blynyddol 2019-20⁴² yn nodi'r rhaglenni gwaith yn ystod y flwyddyn a chafodd ei osod gerbron y Cynulliad ar 28 Mawrth 2019.

53. Mae'r Adroddiad Interim yn darparu asesiad o'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2019-20, ac yn rhoi gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol. Gosodwyd yr Adroddiad Interim gerbron y Cynulliad ar 25 Hydref 2019.⁴³

Y Cynllun Blynyddol

54. Mae Cynllun Blynyddol 2019-20 (y cyntaf gyda'r Archwilydd Cyffredinol presennol yn awdur iddo) yn nodi'r uchelgeisiau a'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a SAC ac yn nodi manylion am y gwaith arfaethedig i gyflawni amcanion.

55. Mae datganiad i'r wasg SAC ar gyhoeddi'r Cynllun Blynyddol yn ailadrodd awydd yr Archwilydd Cyffredinol i "ddatgloi" potensial llawn SAC. Cyfeiriodd Cadeirydd SAC hefyd at y Cynllun Blynyddol fel y "cynllun mwyaf uchelgeisiol hyd yma".⁴⁴

56. Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi manylion y targedau perfformiad ar gyfer y flwyddyn ac yn nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol a SAC yn bwriadu cynnal adolygiad manwl o ddangosyddion perfformiad a thargedau yn ystod 2019-20. Mae 20 o ddangosyddion wedi'u cynnwys yn y Cynllun Blynyddol hwn⁴⁵, o'u cymharu â 27 yn 2018-19⁴⁶ a 35 yn 2017-18⁴⁷. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad yn

⁴¹ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

⁴² Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru: Cynllun Blynyddol 2019-20

⁴³ Adroddiad Interim, Hydref 2019

⁴⁴ Datganiad i'r Wasg: Datgelu cynllun i wneud Swyddfa Archwilio Cymru yn fwy beiddgar ac yn fwy uchelgeisiol, Ebrill 2019

⁴⁵ Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru: Cynllun Blynyddol 2019-20, atodiad 7

⁴⁶ Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru: Cynllun Blynyddol 2018-19, atodiad 7

⁴⁷ Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru: Cynllun Blynyddol 2017-18, atodiad 7

nifer y dangosyddion sy'n ymwneud â'r arolwg staff (y maes â'r perfformiad gwaethaf o ddangosyddion 2018-19).

57. Gofynnodd y Pwyllgor pam mae'r mesurau perfformiad allweddol wedi'u haddasu am yr ail flwyddyn yn olynol, yn enwedig mewn perthynas â dileu dau fesur arolwg staff yr oedd angen eu gwella'n sylweddol o'r blaen. Esboniodd Cadeirydd SAC y bydd un ar ddeg o themâu yn cael eu holrhain yn y deuddegfed dangosydd (Canran y sgoriau thematig cadarnhaol i'r arolwg staff blynyddol) a sicrhodd y Pwyllgor y bydd yn cael cyfle i edrych ar y manylion yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn nesaf.⁴⁸

58. O ran ceisio cymharu dangosyddion yr arolwg staff flwyddyn ar ôl blwyddyn yn dilyn y newidiadau i'r dangosyddion, dywedodd Cadeirydd SAC y canlynol:

"It's not far off, because that's the benefit of our going with the civil service staff survey, on which the board, as well as the management team, has a full in-depth session probing all of those results, seeing exactly what they mean. You'll probably find there's about a 95 per cent correlation with the questions, year on year."⁴⁹

Adroddiad Interim

59. Mae'r Adroddiad Interim ar gyfer 1 Ebrill i 30 Medi 2019 ac yn asesu i ba raddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wedi bod yn gyson â Chynllun Blynyddol 2019-20 a'r cynnydd y maent wedi'i wneud tuag at gyflawni blaenoriaethau a dangosyddion perfformiad allweddol.

60. Mae'r Adroddiad Interim yn nodi bod gwaith yn mynd rhagddo yn unol â'r Cynllun Blynyddol:

"Rydym yn cadarnhau na fu unrhyw angen i wro'n sylweddol o'r rhaglenni gwaith a nodwyd yn ein Cynllun 2019-20. Mae'r holl waith a gynlluniwyd wedi'i gyflawni neu'n mynd rhagddo yn unol â'r cynllun, sy'n dyst i broffesiynoldeb, ymrwymiad a gwaith caled staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r cydweithrediad a gawn gan y cyrff yr ydym yn eu harchwilio."⁵⁰

⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraffau 240-244

⁴⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 246

⁵⁰ Adroddiad Interim, Hydref 2019, tudalen 3

61. Mae'r Adroddiad Interim yn cynnwys ychydig o wybodaeth am gynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (lle y bo'n bosibl). O'r gyfres newydd o 20 dangosydd, mae 18 yn fesuradwy ar adeg llunio'r Adroddiad Interim:

- Cyflawnwyd 12 (66.7 y cant);
- Mae 2 (11.1 y cant) yn agos at gael eu cyflawni;
- Mae angen gwella 4 (22.2 y cant).⁵¹

62. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y tystion yn fodlon ar y cynnydd yn ystod y flwyddyn, gan nodi bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad wedi cyrraedd y targed. Dywedodd Cadeirydd SAC y canlynol:

“Well, for 2019-20, absolutely. I actually think it's down to the dedication, hard work and professionalism of the staff we've got, and, as well, the co-operation we do receive from the bodies we do audit. But I would say, looking forward to 2020-21, our agenda is still pretty ambitious.”⁵²

Safbwynt y Pwyllgor

63. Wrth nodi'r sicrwydd a roddir mewn perthynas ag olrhain canlyniadau arolwg staff SAC flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu y gallai newid mesurau perfformiad allweddol yn rheolaidd beryglu ei allu i nodi tueddiadau a chymharu perfformiad y sefydliad rhwng blynnyddoedd.

64. O gofio'r perfformiad gwael mewn themâu penodol yn yr arolwg staff a'r rhai a nodwyd yn y dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2018-19, mae'r Pwyllgor yn awyddus i adroddiadau blynnyddol yn y dyfodol ddangos cynnydd yn y maes hwn.

Casgliad 4. Mae'r Pwyllgor yn nodi Cynllun Blynnyddol 2019-20 ac Adroddiad Interim 2019-20 ac mae'n fodlon ar y ddwy ddogfen hyn.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adroddiad blynnyddol nesaf Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi'n glir wybodaeth gymaradwy ar gyfer ei dangosyddion yn 2018-19 ochr yn ochr â'r canlyniadau ar gyfer ei dangosyddion diwygiedig yn 2019-20, er mwyn sicrhau y gellir olrhain y mesurau â'r perfformiad gwaethaf.

⁵¹ Adroddiad Interim, Hydref 2019, tudalennau 13-14

⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 250

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth adolygu mesurau perfformiad allweddol, y dylai Swyddfa Archwilio Cymru sicrhau bod y gallu i olrhain perfformiad yn y dyfodol yn erbyn y flwyddyn flaenorol yn cael ei ddiogelu.

5. Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021

65. Paratowyd yr Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021 (yr Amcangyfrif) ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC a'i osod gerbron y Cynulliad ar 26 Hydref 2019, yn unol ag adran 20(1) o'r Ddeddf.⁵³

66. O dan y Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC osod eu hamcangyfrif ar y cyd o incwm a threuliau gerbron y Cynulliad erbyn 1 Tachwedd fan bellaf. Mae Rheol Sefydlog 20.22 yn datgan y canlynol:

"Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18.10(i) ystyried adroddiad sy'n cynnwys yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Cynulliad heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y pwyllgor cyfrifol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddynt."⁵⁴

Cyd-destun

67. Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Ddatganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru i'w hystyried wrth lunio ceisiadau cyllidebol:

Datganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol

- Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.
- Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.
- Ni ddylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ragdybio unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd

⁵³ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21

⁵⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 20.22

yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.

- Dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.
- Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid cefnogi unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau cysylltiedig. Yn ogystal, dylid egluro a meintoli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.

68. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, gofynnodd y Pwyllgor i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC fyfyrion ar yr Amcangyfrif cychwynnol ac ystyried a ellid gwneud newidiadau i leihau'r alwad ar CGC, yn nes at lefel y cyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol.

69. Wedi hynny, ar 15 Tachwedd, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a SAC Amcangyfrif a addaswyd ar gyfer 2020-21, a osodir gerbron y Cynulliad ochr yn ochr â'r adroddiad hwn (gweler Atodiad 2). Mae rhagor o ohebiaeth rhwng y Pwyllgor a'r Archwilydd Cyffredinol a SAC sy'n ceisio eglurhad mewn perthynas â'r Amcangyfrif a addaswyd hefyd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

Trosolwg o'r Amcangyfrif

Yr Amcangyfrif gwreiddiol

70. Gofynnodd Amcangyfrif gwreiddiol 2020-21 am gynnydd £615,000 (7.8 y cant) mewn cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru (CGC), sy'n cynnwys cynnydd £565,000 (7.4 y cant) i reffeniw a chynnydd £50,000 (23.8 y cant) i gyfalaf. O gynnwys y cynnydd bob dwy flynedd yng nghyllid y Fenter Twyll Genedlaethol (MTG), sef £130,000, £745,000 (9.5 y cant) fyddai cyfanswm y cynnydd. Byddai hyn yn cynyddu cyllid SAC o CGC o £7.9 miliwn yn 2019-20 i £8.6 miliwn yn 2020-21.⁵⁵

71. Ariennir SAC yn bennaf drwy incwm ffioedd gan gyrff a archwilir. Nododd yr Amcangyfrif gwreiddiol fod yr Archwilydd Cyffredinol a SAC yn rhagweld gostyngiad mewn incwm ffioedd yn 2020-21, o £14.5 miliwn i £13.8 miliwn. Mae hyn yn golygu y byddai'r gyllideb o incwm ffioedd a chyllid reffeniw CGC ar gyfer SAC yn gostwng £16,000 (0.1 y cant) i £22.1 miliwn o'i chymharu â 2019-20.⁵⁶

⁵⁵ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21

⁵⁶ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalennau 12-13

72. Nododd yr Amcangyfrif gwreiddiol fod yr Archwilydd Cyffredinol a SAC yn “ymwybodol iawn bod arnom gyfrifoldeb o ran rhannau eraill o’r sector cyhoeddus i gyfyngu ar ein costau gweithredol a’r ffioedd a godir gennym”.⁵⁷

73. Gofynnodd yr Amcangyfrif gwreiddiol am gynnydd mewn cyllid refeniw yn y pedwar maes a ganlyn:

- £95,000 – Ar gyfer trosglwyddo gwaith a ariennir drwy archwiliad i waith a ariennir drwy CGC
- £250,000 – Cynnydd mewn dadansoddeg data a diogelwch digidol a seiberddiogelwch
- £100,000 – Ehangu’r rhaglen graddedigion
- £120,000 – Fel cyfraniad at gytundeb tâl⁵⁸

74. Mae’r Amcangyfrif yn cynnwys cynnydd £50,000 mewn cyllid cyfalaf i gefnogi systemau corfforaethol (£30,000) a Strategaeth Ystadau SAC (£20,000).⁵⁹

75. O ran sut y cafodd Datganiad o Egwyddorion y Pwyllgor ei ystyried wrth lunio’r Amcangyfrif, esboniodd Cadeirydd SAC y canlynol:

“...the board took the principles extremely seriously when developing the estimate, and we do lay out in the appendix to the estimate how we believe we’ve met those principles. Our budget requests are limited to new initiatives and a contribution to the pay deal. There’s also a value-for-money statement in the estimate. Although we are requesting additional consolidated fund money, it should be seen in the context that our overall budget has decreased, and that’s despite inflationary pressures and the new proposals.”⁶⁰

76. Pan gafodd ei herio ar y cynnydd mewn cyllid y gofynnwyd amdano gan CGC, ar ôl cydnabod eu cyfrifoldeb i’r sector cyhoeddus gyfyngu ar gostau gweithredol, esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol eu bod yn ceisio gwneud penderfyniadau’n barhaus ynghylch a yw’n fwy priodol i ddarnau penodol o waith y maent yn eu gwneud gael eu hariannu drwy ffioedd neu drwy’r gronfa gyfunol. Ychwanegodd y canlynol:

⁵⁷ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 6

⁵⁸ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 20

⁵⁹ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 31

⁶⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 13

“...next year, the cost of our work will go down. Within that reduction, an increase in our call on the consolidated fund, yes, but that’s more than offset by a reduction in fees...my hope, very much, is that we deliver with that money more and some different outputs that will be more impactful and important.”⁶¹

77. Nododd Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol SAC y disgwylir i incwm ffioedd ostwng £240,000, gan arwain at godi llai o dâl ar wasanaethau cyhoeddus.⁶²

Yr Amcangyfrif a addaswyd

78. Mae’r Amcangyfrif a addaswyd yn gostwng yr alwad ar CGC £395,000 o’i gymharu â’r Amcangyfrif gwreiddiol.⁶³

79. Gan gynnwys cyllid MTG, mae hyn yn cyfateb i gynnydd £350,000 (4.4 y cant) yng nghyllid CGC o’i gymharu â 2019-20, o’i gymharu â chynnydd £745,000 neu 9.5 y cant yn yr Amcangyfrif gwreiddiol. O eithrio MTG, mae hyn yn gynnydd £220,000 (2.8 y cant) o’i gymharu â’r cynnydd £615,000 neu 7.8 y cant a gynigiwyd yn yr Amcangyfrif gwreiddiol.

80. Mae’r Amcangyfrif a addaswyd yn gostwng y cynnydd mewn cyllid refeniw y gofynnwyd amdano i’r canlynol:

- £95,000 – Ar gyfer trosglwyddo gwaith a ariennir drwy archwiliad i waith a ariennir drwy CGC
- £225,000 – Cynnydd mewn dadansoddeg data a diogelwch digidol a seiberddiogelwch (£25,000 yn llai na’r Amcangyfrif gwreiddiol)
- £120,000 – Fel cyfraniad at gytundeb tâl

81. Mae’r Amcangyfrif a addaswyd yn dileu’r £100,000 mewn cyllid y gofynnwyd amdano yn yr Amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer ehangu rhaglen hyfforddeion a phrentisiaid SAC.

82. Mae’r rhaglen gyfalaf hefyd wedi’i hadolygu, gyda buddsoddiad TGCh £30,000 yn cael ei ohirio er mwyn lleihau’r alwad ar CGC.

⁶¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 21

⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 33

⁶³ Atodiad 2 – Gohebiaeth â’r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Dyraniad refeniw yn cynyddu

Trosglwyddo cyllid o waith a ariennir drwy ffioedd

83. Mae'r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn cynnig symud £180,000 o waith archwilio a ariennir drwy ffioedd i weithgarwch a ariennir gan CGC. Mae'r cynnig hwn yn aros yn yr Amcangyfrif a addaswyd.

84. Mae'r Amcangyfrif yn nodi'r canlynol:

“Byddwn yn defnyddio'r capasiti arbenigol hwn i roi sicrwydd a mewnwleddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ac eraill na fyddai modd inni ei roi fel arall, a hynny ar sail ein gwaith cyfrifon blynnyddol. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw gynnydd net i'n costau na'n cyllid i gyflawni hyn.”⁶⁴

85. Mae'r Amcangyfrif yn nodi y bydd y trosglwyddiad hwn yn darparu hyblygrwydd ychwanegol i:

“...gadw capasiti archwilio arbenigol a rhyddhau arbenigedd drwy arbedion effeithlonrwydd archwilio i'w ddefnyddio mewn meysydd gwaith newydd ac i gael mwy o effaith.”⁶⁵

86. Byddai'r adnodd yn galluogi SAC i “ymgyrdd â darnau blynnyddol o waith i bwysu a mesur themâu penodol sy'n codi o'[i] gwaith archwilio cyfrifon” ac mae'r Amcangyfrif yn esbonio y gallai hyn gynnwys archwiliadau o gynlluniau diswyddo gwirfoddol neu reoli asedau ar draws y sector cyhoeddus, ymysg materion eraill.⁶⁶

87. Mae'r Amcangyfrif hefyd yn nodi “na fydd hyn yn cynyddu cyfanswm cost y gwaith a gyflawnir (ni chaiff unrhyw effaith net ar gyllideb bloc Cymru)”.⁶⁷

88. Mae'r Amcangyfrif yn nodi y disgwylir y bydd “Gwaith archwilio a ariennir ac eithrio drwy ffioedd” yn cynyddu £95,000 o'i gymharu â 2019-20.⁶⁸ Mae symud £180,000 o waith archwilio a ariennir drwy ffioedd i weithgarwch a ariennir drwy CGC yn cael ei wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad £85,000 mewn cyllid a ddyrannwyd ar gyfer “Adolygiad Brexit” yn 2019-20.⁶⁹ Mae'r Amcangyfrif yn nodi'r canlynol:

⁶⁴ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 6

⁶⁵ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 17

⁶⁶ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 23

⁶⁷ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 17

⁶⁸ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 20

⁶⁹ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 23

“Yn gynyddol, mae pwyllgorau eraill y Cynulliad yn comisiynu astudiaethau gan Swyddfa Archwilio Cymru, neu’n dibynnu ar ei hastudiaethau ac arbenigedd a gwybodaeth arbenigol ein staff... Rydym yn bwriadu ehangu ymhellach hyd a lled y cymorth yr ydym yn ei ddarparu i’r Cynulliad Cenedlaethol, ac mae’r Amcangyfrif hwn yn cynnwys arian i’n galluogi i wneud hyn.”⁷⁰

89. Yn ystod ei wrandawriad cyn enwebu gyda’r Pwyllgor, trafododd yr Archwilydd Cyffredinol ei safbwyntiau ar y berthynas â’r swyddfa a’r Cynulliad. Nododd fel a ganlyn:

“So, another feature that I think is a good one is the developing willingness to share examinations that emanate from the audit office with other committees so that they can use it as a platform for their work, not solely channel everything through the PAC [Public Accounts Committee].”⁷¹

90. Yn gynharach yn y sesiwn honno, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn credu bod angen iddynt edrych, hefyd, ar ffyrdd o wneud y defnydd gorau o’r holl adnoddau sydd eisoes ar gael iddynt.⁷²

91. Pan ofynnwyd iddo beth y byddai’r effaith ar y sefydliad pe na bai’n cael yr arian ychwanegol gan CGC, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

“...we would be faced—the board and I—with a conversation about whether we’d simply drop some of our ambitions and not do that work, whether we’d consider shifting an element of that to the fee regime rather than the consolidated fund, or whether we’d simply rein back on our ambitions.”⁷³

92. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y datganiad yn yr Amcangyfrif gwreiddiol na fydd symud adnoddau’n cael “unrhyw effaith net ar gyllideb bloc Cymru”, ac a oedd hyn ar y rhagdybiaeth y byddai gostyngiad cyfatebol yn y cyllid i’r cyrff perthnasol a archwilir. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

“In terms of the overall impact on the block, then, for there to be absolutely zero impact on the block, then the logic would be, yes, that money is rebalanced. I think it’s important, though, to keep this in

⁷⁰ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 22

⁷¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2018, paragraff 82

⁷² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2018, paragraff 69

⁷³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 23

perspective. You know, the £180,000 has been arrived at by us looking hard at every one of the audits that we will undertake next year, as we always do. In around a dozen or so of the larger audits, the Welsh Government, some of the larger local authorities and health bodies, we believe that we can deliver our audit work next year for less, and the £180,000 is the summation of those individual elements. For individual bodies, you're talking a reduction in fees of between £10,000 and £20,000."⁷⁴

93. Aeth yr Archwilydd Cyffredinol ymlaen i ddweud y canlynol:

"Whether there is an offsetting decision in respect of the other parts of the fund is not a matter for me, clearly, but what I can guarantee is that we will be passing on those reductions to those bodies."⁷⁵

94. Clywodd y Pwyllgor y byddai'r £180,000 mewn cyllid ychwanegol CGC yn galluogi'r sefydliad i amlygu llawer mwy o'r deallusrwydd a'r mewnwelediad o'i archwiliad o waith cyfrifon, nad yw'n gallu ei wneud ar hyn o bryd o ystyried cyfyngiadau'r drefn ffioedd. Ymhelaethodd yr Archwilydd Cyffredinol ymhellach:

"Every time I sign off a set of accounts, I have members of the team that have undertaken that work coming to talk to me about it. And they will start to talk about the body in question, and that work, invariably, has told them fascinating stuff about those organisations. Often it's really positive; these are well-run, efficient organisations, well led, well governed, and so on. At other times, it's more concerning and there are important messages there about financial sustainability and governance and so on.

...I think it's a vast untapped source of information and insight that would be of value to you as Assembly Members and certainly of value to the bodies in question and to taxpayers, service users, residents and so on."⁷⁶

95. Cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol fod symud adnoddau o waith archwilio a ariennir drwy ffioedd i weithgarwch a ariennir drwy CGC yn bwynt pwysig o ran

⁷⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 41

⁷⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 42

⁷⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraffau 44-45

egwyddor a byddai'n gobeithio dod yn ôl y flwyddyn nesaf a dangos yn union yr hyn y byddwch wedi'i weld a'i gael am yr arian hwnnw ac a yw'n gweithio.⁷⁷

96. Gofynnodd yr Amcangyfrif gwreiddiol am £250,000 ychwanegol i gefnogi rhaglen waith SAC mewn perthynas â dadansoddeg data, diogelwch digidol a seiberddiogelwch. Gofynnodd yr Amcangyfrif gwreiddiol am £180,000 ychwanegol ar gyfer Dadansoddeg Data a £170,000 ar gyfer seiberddiogelwch a gweledigaeth ddigidol. Mae hyn yn cael ei wrthbwysu'n rhannol drwy ailddyrannu £100,000 o brosiectau trawsnewid eraill, gan gyfyngu ar yr arian ychwanegol ar £250,000.⁷⁸

97. Mae uchelgeisiau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wedi cael eu "cwtogi" wedi hynny, gan leihau'r cyllid ychwanegol y gofynnwyd amdano'n wreiddiol £25,000 yn yr Amcangyfrif a addaswyd.⁷⁹

98. Gofynnodd yr Amcangyfrif gwreiddiol am £180,000 mewn cyllid ychwanegol ar gyfer Dadansoddeg Data er mwyn i SAC "estyn dadansoddeg data tu hwnt i'r cyfnod treialu ac arbrofi i'w ymgorffori yn [ei] holl waith".⁸⁰

99. Cytunodd y Pwyllgor ar £260,000 mewn cyllid ar gyfer Dadansoddeg Data yn 2019-20.⁸¹

100. Mae'r Amcangyfrif yn nodi y bydd y cyllid yn galluogi SAC i storio data'n ddiogel gan gyrff a archwilir a brwydro yn erbyn risgiau seiberddiogelwch uwch.⁸²

101. Ym mis Medi 2019, cyhoeddwyd diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Dadansoddeg Data, a nododd fod ffocws y gwaith hwn yn "troi at... waith archwilio ariannol".⁸³

102. Mae'r Amcangyfrif hefyd yn nodi y bydd y buddsoddiad yn sicrhau y gall SAC gael mynediad at ddata'r cyrff a archwilir mewn ffordd saff a diogel i sicrhau'r "budd mwyaf".⁸⁴ Yn flaenorol, gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am y buddion y gellid eu creu o Ddadansoddeg Data yn dilyn gwaith craffu y llynedd ar

⁷⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 48

⁷⁸ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalennau 25-27

⁷⁹ Atodiad 2 – Gohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

⁸⁰ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 25

⁸¹ Y Pwyllgor Cyllid: Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2018

⁸² Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 25

⁸³ Swyddfa Archwilio Cymru Data mawr a dadansoddi data yw dyfodol archwilio, Medi 2019

⁸⁴ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 25

Amcangyfrif 2019-20.⁸⁵ Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wedi meintoli hyn yn yr Amcangyfrif, ond maent yn nodi'r canlynol:

“Dros y tymor canolig i'r tymor hir, ar ôl inni ymgorffori dadansoddeg data'n llwyr yn ein gwaith archwilio, rydym yn credu bod potensial i leihau cost archwilio cyfrifon 5-10%. Er ei bod yn anodd iawn dweud yn bendant beth yw'r tebygolrwydd o gyflawni arbedion o'r fath a'r union amserlenni, mae'n dal i fod yn rhan graidd o'r dull a ddefnyddir gennym i wireddu buddion.”⁸⁶

103. Mae SAC yn nodi, heb y buddsoddiad ychwanegol, y byddai'n dal i allu ymgymryd â gweithgarwch Dadansoddeg Data ond y byddai hynt y datblygiadau'n “llawer arafach a byddant yn fwy ad hoc”.⁸⁷

104. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor fod y gwaith Dadansoddeg Data, hyd yn hyn, wedi darparu mewnwelediad cyfoethocach a dyfnach, gan ddefnyddio offer data rhyngweithiol a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag adroddiadau traddodiadol, gan ychwanegu'r canlynol:

“Some of our work, though, has been focused more at the process end, automating what would have been manual processes, and those are some of the efficiencies that you're seeing us pass on to audited bodies.”⁸⁸

105. Can gydnabod bod SAC yn yr ail flwyddyn o raglen Dadansoddeg Data dair blynedd, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

“I have seen more than enough now to be convinced that it is the way that we should be going. For us really to crack on and make this mainstream, rather than a selection of nice ad hoc stand-alone pieces of work, we need to invest in our infrastructure to create some serious secure, expandable storage capacity so we can take in large volumes of data and sensitive data, and we need to enhance some specialist capabilities around that so that we can maintain that going forward.”⁸⁹

106. Mewn perthynas â'r awgrym yn yr Amcangyfrif y gallai'r rhaglen Dadansoddeg Data greu arbedion rhwng 5 a 10 y cant ar gost archwilio cyfrifon,

⁸⁵ Y Pwyllgor Cyllid: Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2018

⁸⁶ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 26

⁸⁷ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 26

⁸⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 51

⁸⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 54

nododd yr Archwilydd Cyffredinol mai amcangyfrif cynnar iawn yw hwn os gellir darparu “archwiliad ariannol a alluogir gan ddata”:

“We’re working very closely with the National Audit Office and our partner audit bodies in the rest of the UK on this. We’re all at more or less the same stage. But if we can achieve that, it would mean large-scale ingestion and processing of data that would make automatic what are now laborious manual tasks. If we can achieve that sort of saving, then, yes, that would be directly passed on to the audited bodies—absolutely.”⁹⁰

107. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y cais am gyllid ychwanegol ar gyfer Dadansoddeg Data ac a fyddai hyn yn gost gylchol yn y blynyddoedd i ddod. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

“...the fundamentals of the broad scale of our spend on data analytics, which is that £180,000 plus the sum that was already in there—yes, that will be rolled into our base budget. At the margin, that might differ, because, as I said, there are some specific things we need in the coming year.”⁹¹

108. Gofynnodd yr Amcangyfrif gwreiddiol am £170,000 ychwanegol ar gyfer seiberddiogelwch a gweledigaeth ddigidol. Mae'r Amcangyfrif yn nodi y bydd hyn yn ariannu datblygwr gwefannau arbenigol, prynu meddalwedd hanfodol a hyfforddiant ar gyfer seiberddiogelwch gwell.⁹²

109. Nododd yr Amcangyfrif gwreiddiol y canlynol:

“Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru gynyddu ei pharodrwydd o ran seiberddiogelwch yn gymesur â'r risg, gan sicrhau bod modd iddi barhau i drin data archwilio'n saff ac yn ddiogel, a bod Swyddfa Archwilio Cymru yn barod i ymateb i unrhyw achos lle ceir mynediad diawdurdod at ddata.”⁹³

110. Mae Adroddiad Blynyddol 2018-19 yn nodi materion yn ymwneud â diogelu data, gan nodi bod mater a nodwyd yn ystod y flwyddyn ac a adroddwyd i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnwys “[m]ynediad allanol yn ôl pob golwg at ffolderi electronig a oedd yn dal rhywfaint o wybodaeth bersonol” ar systemau

⁹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 52

⁹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 59

⁹² Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 26

⁹³ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 26

SAC. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Blynyddol yn mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

“Canfu ein hymchwiliadau, gan gynnwys adolygiad gan arbenigwyr allanol, nad oedd unrhyw wendidau arwyddocaol yn ein trefniadau diogelwch gwybodaeth.”⁹⁴

111. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am y cyllid y gofynnwyd amdano ar gyfer “gweledigaeth ddigidol”. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y ffrwd waith gweledigaeth ddigidol yn deillio o raglen drawsnewid flaenorol y sefydliad.⁹⁵ Gan ymhelaethu ar hyn, dywedodd y canlynol:

“We’re looking at a range of digital initiatives at the moment. One of those is we’re looking at artificial intelligence and whether or not that can schedule meetings for us. We’re looking at how we could use technology to record interviews as part of our audit work and then to transcribe those interviews, and we’re also looking at robotic process automation to simplify and carry out basic administrative tasks, thereby freeing our staff up to do more value-added work.”⁹⁶

112. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, o'r £170,000 ychwanegol y gofynnwyd amdano, y ceisir £50,000 i £60,000 mewn cyllid un-tro ar gyfer datblygu gwefan, er mwyn eu helpu i wireddu rhai o'r uchelgeisiau a nodir yn eu cynllun blynyddol o ran cynyddu effaith eu gwaith, cynyddu cyrhaeddiad eu gwaith a, hefyd, sicrhau bod eu gwaith mor hygyrch â phosibl.⁹⁷

Arweinwyr Cyllid y Dyfodol

113. Ceisiodd yr Amcangyfrif gwreiddiol gynnydd £100,000 i ehangu rhaglenni graddedigion a phrentisiaethau SAC. Yn benodol, roedd hyn yn targedu gwella amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol a bydd yn cynyddu'r ystod o gyfleoedd secondiad i brentisiaid a hyfforddeion graddedig SAC.⁹⁸

114. Yn dilyn hynny, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol a SAC y cyllid £100,000 y gofynnwyd amdano i ehangu'r rhaglenni graddedigion a phrentisiaethau o'r Amcangyfrif a addaswyd.⁹⁹

⁹⁴ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 68.

⁹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 68

⁹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 69

⁹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 71

⁹⁸ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 29

⁹⁹ Atodiad 2 – Gohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

115. Nododd yr Amcangyfrif gwreiddiol fod SAC bellach yn cyflogi bron 50 o raddedigion ac wyth prentis, sy'n rhoi cyfrif am 20 y cant o gyfanswm ei gweithlu.¹⁰⁰

116. Nododd yr Amcangyfrif gwreiddiol hefyd y byddai'r rhaglen, heb y cyllid, yn parhau i gael ei chynnal ar ei lefel bresennol (er y byddai heb y buddion a nodwyd).¹⁰¹

117. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor fod y cynllun hyfforddeion graddedig, sydd wedi tyfu o naw neu ddeg yn 2015 i oddeutu 50, wedi dod yn rhan sylweddol o fodel darparu SAC. Esboniodd fod tua 30 o hyfforddeion graddedig wedi ymgymryd â secondiadau i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus ac yr ystyrir bod y cynllun yn rhan bwysig o'r rhaglen graddedigion. Nododd y byddai traean o'r £100,000 y gofynnwyd amdano'n galluogi SAC i gynnig cyfleoedd secondiad i'w holl raddedigion, yn hytrach na'r nifer gyfyngedig ar hyn o bryd.¹⁰²

118. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'r gyfran sy'n weddill o'r £100,000 ychwanegol y gofynnwyd amdano'n ariannu gwaith datblygu rhaglen brentisiaeth SAC. Gan bwysleisio'r budd ehangach ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ychwanegodd y canlynol:

"We're picking up messages from the wider public sector that they, too, would like to see us do something similar in respect of apprentices as we do for graduate entries. And so the funding we've asked for would be focused next year on two things: (1) on building up that offer with partners in other parts of the public sector so that, this time next year, ideally, we would be running a recruitment campaign to take in 20 or 30 apprentices who will be focused on finance apprenticeship, who would be dotted around the public service in Wales. The other element is to enable us to work with a charity called the Social Mobility Business Partnership, who specialise in extending the reach of programmes like that to more disadvantaged communities so that we hopefully attract intake from black, Asian and minority ethnic communities, socially deprived areas and so on."¹⁰³

119. Pan gafodd ei holi pam na chyflawnwyd y lefel ddymunol o amrywiaeth gymdeithasol yn y rhaglen bresennol, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod y

¹⁰⁰ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 28

¹⁰¹ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 29

¹⁰² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraffau 74-76

¹⁰³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 77

rhaflen mynediad graddedigion yn llwyddo i ddenu cymysgedd amrywiol o ymgeiswyr, ond bod y rhaflen brentisiaeth yn llawer llai. Parhaodd fel a ganlyn:

“...there is a perception amongst some communities that a career in the public service is not one that they instinctively consider is something for them, let alone a career in finance as a profession. It’s something that simply doesn’t hit the radar. And so I think, undeniably, there is a lot of work for us to do to try to break down some of those barriers...People need to know what the WAO does, because it’s not transparent to a lot of people, I’m sure, and certainly a lot of younger people.”¹⁰⁴

120. O ran asesu gallu SAC i lwyddo i ddenu prentisiaid amrywiol cymdeithasol, cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oes gan y sefydliad ddangosydd perfformiad allweddol ar hyn o bryd ond y byddai nifer yr unigolion sydd ganddynt yn eu galluogi i gael ymdeimlad eithaf cryf o ran y cefndiroedd y maent yn dod ohonynt.¹⁰⁵

Costau cynnal

121. Mae'r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn gofyn am gynnydd £120,000 gan CGC tuag at eu costau cynnal, y mae'r Amcangyfrif yn nodi ei fod yn “cyfrannu'n rhannol at gytundeb tâl”.¹⁰⁶ Mae'r cais cyllido hwn, sy'n aros yn yr Amcangyfrif a addaswyd¹⁰⁷, yn cynnwys:

- cyfraniad at gostau cymorth technegol, sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth;
- cyfraniad at gyfanswm y costau teithio;
- buddsoddiad mewn cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y staff;
- costau llywodraethu, megis ar gyfer Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, costau cymorth cysylltiedig ac agweddau eraill ar y broses o gydymffurfio â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.¹⁰⁸

122. Mae SAC yn nodi bod y £120,000 yn gyfran o gynnydd £320,000 mewn tâl sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020-21.

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 79

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 86

¹⁰⁶ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 20

¹⁰⁷ Atodiad 2 – Gohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

¹⁰⁸ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 30

123. Gofynnodd y Pwyllgor pa gyfran o'r cynnydd £120,000 ychwanegol ar gyfer costau cynnal sy'n ymwneud ag ariannu'r cytundeb tâl ac a ystyriwyd dulliau eraill i ddarparu ar gyfer y cytundeb. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y £120,000 yn benodol ar gyfer codiad tâl.¹⁰⁹

124. Gan gyfeirio at ganllawiau gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, sy'n dweud bod cynnydd tâl 2 y cant ar gyfer chwyddiant yn dybiaeth resymol, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol y canlynol:

"Previously, increases have been funded through our savings and efficiency value for money programme; that's set out on page 9 of the estimate in some detail. But also, we look at savings that we can generate in the year. So, even though we're looking for this additional funding of £120,000 as a contribution to the pay settlement, there is still a savings target next year of £476,000. What the board concluded was that to put the pay increase on top of that savings target would be a high risk to our financial position and would be unaffordable."¹¹⁰

125. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn gysurus yn gofyn am yr arian ychwanegol hwn, gan ychwanegu'r canlynol:

"...it's important to recognise that this is an apportionment to the consolidated fund; it's not the entire cost of the rise. So, two thirds of the increase in our cost base will be passed on in those fees, but there are fees that we are capping and driving down. So, we are, through our own internal efficiencies, eating up a lot of the additional costs that come with that."¹¹¹

Dyraniadau cyfalaf

126. Gofynnodd yr Amcangyfrif gwreiddiol am gynnydd £50,000 (23.8 y cant) mewn cyllid cyfalaf o'i gymharu â 2019-20 (o £210,000 i £260,000). Roedd yr Amcangyfrif gwreiddiol yn cynnwys dyraniadau cyfalaf hyd at 2023-24, gyda'r gyllideb yn codi i £800,000 yn 2022-23.¹¹²

127. Yn dilyn hynny, gostyngodd yr £50,000 mewn cyllid cyfalaf ychwanegol y gofynnwyd amdano'n wreiddiol i £20,000 yn yr Amcangyfrif a addaswyd.¹¹³

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 104

¹¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 91

¹¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 93

¹¹² Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 31

¹¹³ Atodiad 2 – Gohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

128. Gofynnodd yr Amcangyfrif gwreiddiol am gynnydd £30,000 mewn cyfalaf ar gyfer systemau corfforaethol, y dyrannwyd £50,000 ar gyfer hynny y flwyddyn flaenorol. Mae arwyddion o'r swm y gofynnir amdano yn y blynyddoedd i ddod, hyd at 2023-24 hefyd wedi'u cynnwys. Gallai cyllideb y systemau corfforaethol gynyddu i £200,000 dros y cyfnod hwnnw. Nododd yr Amcangyfrif y "pennodd ein prosiect trawsnewid Ffyrdd o Weithio fod angen systemau gwybodaeth fusnes gwell a mwy cysylltiedig".¹¹⁴

129. Gofynnwyd hefyd am £20,000 ychwanegol ar gyfer Strategaeth Ystadau SAC. Gallai hyn godi £40,000 arall yn 2021-22, gan gyrraedd £500,000 ar y mwyaf yn 2022-23. Nododd yr Amcangyfrif gwreiddiol fod y Strategaeth Ystadau'n cynnwys costau ar gyfer symud swyddfa o bosibl pan ddaw lesoedd i ben yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n awgrymu y bydd newidiadau yn y ffordd y mae SAC yn gweithio, o ganlyniad i hyn, yn rhyddhau arbedion o ran costau swyddfeydd. Fodd bynnag, ni chafodd y rhain eu hesbonio na'u meintioli yn yr Amcangyfrif gwreiddiol.¹¹⁵

130. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am raglen gyfalaf SAC, gan nodi y gallai'r gyllideb gyfalaf gyrraedd £800,000 ar y mwyaf. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

"...that big spike in expenditure is just us flagging up to you that there will be, when the Cardiff lease expires, in particular, some significant costs associated with office relocation most probably."¹¹⁶

131. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol mai'r lesoedd ar y tri adeilad yw'r elfen fwyaf o wariant heblaw am dâl. Ymhelaethodd ar Strategaeth Ystadau SAC, gan nodi mai cyfarwyddyd clir y Bwrdd oedd y dylai unrhyw symud swyddfa yn y dyfodol arwain at gostau cynnal is. Wrth rybuddio'r Pwyllgor mai hwn yw'r amcangyfrif gorau ar hyn o bryd a chydabod y gallai'r costau fod yn fwy, dywedodd y byddai unrhyw fuddsoddiad ar sail buddsoddi i arbed.¹¹⁷

132. O ran amcangyfrif yr arbedion y byddai SAC yn disgwyl eu cyflawni, esboniodd Cadeirydd SAC y canlynol:

"...when the board debated this in September, the board wanted to set exactly that target—'You need to work on the assumption of 20 per cent cost savings.' We were advised against it until we'd received the report about the likely footprint, the likely locations and the likely rentals that

¹¹⁴ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 31

¹¹⁵ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 31

¹¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 107

¹¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraffau 108-112

are out there, before we put an actual savings target on it, because, otherwise, we're just shooting in the dark."¹¹⁸

133. Mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf gynyddol ar gyfer TGCh ac adnewyddu seilwaith digidol, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod hyn yn cynnwys disodli system archwilio ariannol SAC. Esboniodd fod y contract yn dod i ben yn 2021 a bod canfod system effeithiol yn lle hynny'n allweddol er mwyn ategu gwaith archwilio'r sefydliad. Parhaodd fel a ganlyn:

"We're already looking at options for replacement. They range from things like internally developing a system, where we could look to extend the system that we currently use for measuring our value-for-money work. At the other end of the spectrum, we could look to procure a new system from a new provider. It's also important to say that we are working in partnership with the other UK audit bodies. We're all in the same position with this need to replace that system. And of course, working in collaboration with those bodies does give the advantages of shared experience and expertise in this area, but also there's the potential to achieve a more cost-effective solution, because the combined purchasing power of those organisations would clearly be greater than just a single procurement exercise."¹¹⁹

Arbedion ac effeithlonrwydd

134. Nododd yr Amcangyfrif gwreiddiol darged arbedion £476,000 ar gyfer 2020-21. Cyflawnir hyn gan raglen gwerth am arian "Doethach, Symlach, Gwell" SAC.¹²⁰

135. Nododd yr Amcangyfrif gwreiddiol fod SAC yn rhagweld arbedion teithio a chynhaliaeth wrth iddi weithredu argymhellion ei phrosiect trawsnewid "Ffyrdd o Weithio". "O wneud hyn, mae'n debygol y bydd mwy o'n staff yn gweithio o bell neu o 'hybiau archwilio' yn hytrach na theithio bob dydd i safleoedd cleientiaid". Nodir bod Strategaeth Ystadau SAC yn cael ei diweddarau i ystyried canfyddiadau'r prosiect hwnnw ac anghenion swyddfeydd yn y dyfodol.¹²¹

¹¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 116

¹¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 120

¹²⁰ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 6

¹²¹ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 15

Newidiadau i'r trefniadau gweithio

136. Mae'r Amcangyfrif yn nodi newid i drefniadau contractio gyda chwmnïau'r sector preifat, a adroddir hefyd yn **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19**. Mae'n nodi'r canlynol:

“Ar ôl ystyried arfarniad o'r opsiynau a'r achos busnes mewn manylder, cytunodd y Bwrdd... na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni gwaith archwilio drwy gontractau allanol â chwmnïau yn y sector preifat mwyach. Bydd y contractau presennol yn dod i ben yn yr hydref 2020 ac yna bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru'n ymgymryd â'r gwaith. Ni fydd y newid yn lleihau ansawdd y gwaith archwilio mewn unrhyw ffordd a bydd yn gyfle i wireddu buddion eraill...”¹²²

137. Amcangyfrifir y bydd incwm o waith sy'n ymwneud â chronfeydd amaethyddol yr UE yn gostwng £141,000 (15.7 y cant) o £900,000 i £759,000 yn 2020-21 ac mae'r Amcangyfrif yn rhagdybio “y bydd y ffrwd incwm ffioedd hon yn dod i ben yn llwyr yn y blynyddoedd canlynol”.¹²³

138. Mae'r Amcangyfrif yn mynd ymlaen i ddweud, gyda Brexit “heb gytundeb”, fod yr Archwilydd Cyffredinol a SAC yn disgwyl i waith archwilio cronfeydd amaethyddol yr UE ddod i ben erbyn mis Mawrth 2020 fan bellaf. Mae'n nodi dau opsiwn pe bai Brexit “heb gytundeb”:

- ailddyrannu'r staff hynny i brosiectau newydd tan yr hydref, gyda chyllid ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru i wneud iawn am yr incwm a gollir i bontio'r bwlch o chwe mis o ran y llwyth gwaith disgwylidig sy'n cynhyrchu ffioedd; neu
- gynnig pecynnau dileu swyddi i nifer o staff gan wybod y byddai angen recriwtio staff ychwanegol ryw chwe mis yn ddiweddarach.¹²⁴

139. Disgwylir i'r cyllid sy'n gysylltiedig ag archwilio grantiau Llywodraeth Cymru hefyd ostwng £328,000 (27.4 y cant) o £1.2 miliwn i £870,000, o'i gymharu â 2019-20. Mae'r Amcangyfrif yn nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol a SAC “yn disgwyl gostyngiad sylweddol iawn pellach i'r ffrwd incwm ffioedd hon mewn blynyddoedd i ddod”. Mae'r Amcangyfrif yn mynd ymlaen i ddweud bod yr Archwilydd Cyffredinol a SAC yn gwneud gwaith i ddeall a fyddai angen rhagor o

¹²² Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 15

¹²³ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalennau 13 a 17

¹²⁴ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 32

waith sicrwydd ar gyfrifon blynnyddol Llywodraeth Cymru oherwydd y newidiadau i'r drefn ardystio grantiau.¹²⁵

140. Trafododd y Pwyllgor lwyth gwaith gostyngol SAC yn y dyfodol a'r dull gweithredu a ddilynwyd o ran cynllunio gweithlu a chyllidebu ar gyfer ei gwaith archwilio cronfeydd amaethyddol yr UE. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Amcangyfrif wedi'i baratoi ar y sail y byddai'r DU yn gadael yr UE ddiwedd mis Hydref [2019] gyda threfniad pontio ar waith:

"Clearly, that's been overtaken. If we were to leave towards the end of January, I think the broad thrust of the estimate would still hang together. So, we are faced with a conundrum. At one extreme, if we end up leaving without a deal, and that agricultural funds work comes to a sudden end in the early part of next year, then we would be left with a funding gap."¹²⁶

141. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, y bydd gwaith archwilio sydd wedi'i drefnu drwy gontract allanol i gwmnïau'r sector preifat o'r blaen yn cael ei wneud yn fewnol o ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Awgrymodd ei bod yn bosibl y bydd diwedd gwaith y cronfeydd amaethyddol a dechrau gwneud y gwaith yn fewnol yn cyd-fynd yn hwylus. Os digwydd bwlch cyllido, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

"...we either have to pay off staff that we have at the moment who are no longer funded through the agricultural funds work and then, a few months later, re-employ staff to undertake work we're taking in-house, or have funding that sees them through that period..."¹²⁷

142. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol fod SAC yn defnyddio'r un dull gweithredu â holl gyrff archwilio'r DU – cyllidebu tan hydref 2020 – gan nodi mai hyd at £760,000 yw'r risg ariannol os daw cronfeydd amaethyddol i ben cyn hynny.¹²⁸

143. Mewn ymateb i gwestiwn ar rôl SAC wrth archwilio trefniadau cymorth amaethyddol yn y dyfodol, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

"...assuming that alternative support packages are put in place, then the sums involved in my view would necessitate some form of audit. I

¹²⁵ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 17

¹²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 126

¹²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 129

¹²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 132

would be very surprised, and I don't think it would be wise, for the level and precision and depth of that audit to be the current model that we exercise, because it is exceptionally detailed. So, I think there is a lighter touch approach that we will need to have in place for any replacement regime. But, obviously, we don't know what that will look like at the moment. We don't know the shape of the scheme, whether audit requirements and duties on me will be placed into the legislation that underpins that, or whether I need to come at it just through my work on the wider Welsh Government account. At the moment, we just don't have that clarity of detail.”¹²⁹

Newidiadau posibl i'r Amcangyfrif

144. Nododd yr Amcangyfrif gwreiddiol nifer o feysydd lle y mae'n bosibl y bydd newid yn yr angen am gyllid gan CGC a allai arwain at Amcangyfrif atodol. Mae hyn yn cynnwys effeithiau posibl archwiliad llai o gronfeydd amaethyddol yr UE, amrywiadau posibl i'r cytundeb tâl 2 y cant, safonau adrodd newydd ar gyfer lesoedd (Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16) os yw'n ymrwymo i les newydd ac yn ailflaenoriaethu gwaith pe bai Brexit “heb gytundeb”.¹³⁰

Cynllun Ffioedd Drafft 2020-21

145. Mae cynllun ffioedd drafft SAC ar gyfer 2020-21 wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 o'r Amcangyfrif gwreiddiol. Disgwylir i'r graddfeydd ffioedd ostwng yn 2020-21. Mae'r Amcangyfrif gwreiddiol yn nodi mai 1 y cant yw hyn o'i gymharu â 2019-20.¹³¹

146. Mae'r Cynllun Ffioedd drafft yn ailadrodd y dull cyllido canolog ar gyfer yr MTG a bod y cyrff a archwilir yn parhau i groesawu hyn. Mae hefyd yn nodi bod y ffioedd, fel y'u gosodwyd, yn darparu ar gyfer parhad cyfleoedd secondiad i hyfforddeion cyfrifyddu heb effeithio ar y ffioedd hynny.¹³²

147. Ymgynghorodd SAC ag 96 o gyrff i bennu ei ffioedd ar gyfer 2020-21 a chafodd ymatebion gan 9 o'r cyrff hynny.¹³³

148. Mae'r cynllun ffioedd drafft yn nodi'r trefniadau ffioedd a chodi tâl. Mae'n nodi y bydd SAC yn gwneud y canlynol:

¹²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 144

¹³⁰ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalennau 32-33

¹³¹ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 18

¹³² Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 39

¹³³ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 40

“...prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol mewn modd sy’n ceisio cadw’r costau gweinyddol mor isel â phosibl, er enghraifft drwy eu gwrthbwysu yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar ein gwaith archwilio.”¹³⁴

149. Nid yw’n glir sut y mae hyn yn gyson â’r darpariaethau yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013¹³⁵ sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r ffioedd ar gyfer y cyrff a archwilir adlewyrchu’r adnoddau a ddefnyddir gan SAC.

150. Gofynnodd y Pwyllgor a fydd y gostyngiad 1 y cant mewn graddfeydd ffioedd yn arwain at gostau is i’r cyrff a archwilir. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol y canlynol:

“The auditor general earlier talked about reducing fees by £180,000 for a number of local authorities and NHS boards as well. So, organisations will feel a reduction in their fee—not everyone, though, because fees are an equation of the skills mix that we need to put into an individual audit, the team that goes into that, the number of hours they need to work there, based on the risk profile of that individual audit. So, whilst our overall fee scales are coming down, it doesn’t automatically mean a fee reduction for everyone.”¹³⁶

151. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol hefyd fod y cyfeiriad at brosesu ad-daliadau mewn ffordd sy’n cadw costau gweinyddol yn isel yn golygu y bydd SAC yn rhoi nodiadau credyd yn lle ad-daliadau arian parod, oni bai y gofynnir amdanynt.¹³⁷ Yn dilyn cais y Pwyllgor i ailystyried yr Amcangyfrif gwreiddiol a lleihau’r alwad ar CGC, mae’r Amcangyfrif a addaswyd yn defnyddio cynnydd £240,000 mewn incwm ffioedd o’i gymharu â’r Amcangyfrif gwreiddiol. Yn hytrach na gostyngiad £711,000 mewn ffioedd a gynhwyswyd yn yr Amcangyfrif gwreiddiol, mae’r Amcangyfrif a addaswyd yn nodi y bydd incwm ffioedd yn gostwng £471,000. Mae’r Amcangyfrif a addaswyd yn nodi y bydd y Pwyllgor yn cael Cynllun Ffioedd wedi’i ddiweddarau y mis nesaf.¹³⁸

Safbwynt y Pwyllgor

152. Mae’r Pwyllgor yn gefnogol i gynlluniau uchelgeisiol SAC ac yn cydnabod y manteision posibl y bydd y cynlluniau hyn yn eu cyflawni ar gyfer y sector

¹³⁴ Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, tudalen 43

¹³⁵ Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, adran 23

¹³⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 255

¹³⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 263

¹³⁸ Atodiad 2 – Gohebiaeth â’r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

cyhoeddus ehangach. Fodd bynnag, rhaid i'r Pwyllgor asesu'r cyllid y gofynnwyd amdano yn erbyn datganiad o egwyddorion cytûn y Pwyllgor ac ystyried y pwysau ar CGC, a'r penderfyniadau anodd sy'n cael eu gwneud ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, yng nghyd-destun cyllidebau gostyngol.

153. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod gwerth yr MTC ac yn parhau i gefnogi'r ffaith bod y fenter yn cael ei hariannu'n ganolog er mwyn annog cyfranogiad a chynyddu i'r eithaf faint o ddata y gellir eu dadansoddi ar gyfer twyll a gordaliadau.

154. Mae'r ansicrwydd ynghylch gwaith cynllunio gweithlu SAC mewn perthynas â'i gwaith sy'n ymwneud â chronfeydd amaethyddol yr UE hefyd wedi'i nodi ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen posibl am Amcangyfrif atodol yn ystod y flwyddyn.

155. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd disgwyledig mewn cyllid cyfalaf yn 2022-23 mewn perthynas â diwedd y les ar y swyddfa yng Nghaerdydd ac yn cydnabod bod gwaith ar droed i ystyried sut y gall SAC leihau ei hanghenion swyddfeydd.

156. Er ei fod yn nodi honiad SAC na fydd newid adnodd o waith archwilio a ariennir drwy ffioedd i weithgarwch a ariennir drwy CGC yn cael effaith net ar gyllideb bloc Cymru, mae'r Pwyllgor o'r farn na ddylid rhagdybio gostyngiad cyfatebol mewn cyllid i'r cyrff perthnasol a archwilir.

157. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y manteision posibl y bydd Dadansoddeg Data yn eu darparu, mae'n pryderu bod y cyllid y gofynnir amdano ar gyfer y rhaglen yn cynyddu. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai amcangyfrif cynnar yn unig yw'r arbediad 5-10 y cant ar gost archwilio cyfrifon o ganlyniad i'r rhaglen Dadansoddeg Data.

158. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cydweithrediad SAC â chyrff archwilio partner mewn perthynas ag awtomeiddio tasgau archwilio penodol, er mwyn gwneud y mwyaf o arbedion ac effeithlonrwydd posibl a byddai'n croesawu rhagor o wybodaeth am y cydweithrediad hwn yn y dyfodol.

159. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod hyfforddeion graddedig bellach yn rhoi cyfrif am 20 y cant o gyfanswm gweithlu SAC ac mae'n cydnabod y byddai'r cyllid ychwanegol wedi hwyluso cyfleoedd i fwy o hyfforddeion graddedig gael secondiad i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod manteision y rhaglen hon, rhaid rhoi blaenoriaeth i ddarparu adnoddau ar gyfer gwaith craidd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod y cyfnod hwn o gyni parhaus.

160. Yn dilyn ei waith craffu blynyddol yn 2018, gwnaeth y Pwyllgor argymhellion mewn perthynas â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r bwlch cyflog o ran ethnigrwydd yn y sefydliad. Er bod dyheadau SAC i'w hedmygu o ran targedu amrywiaeth gymdeithasol a chynrychiolaeth BAME fel rhan o'i chynllun prentisiaeth, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen mynd i'r afael â chynrychiolaeth annigonol y grwpiau hyn ar bob lefel o'r sefydliad.

161. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r buddsoddiad cyfalaf ychwanegol y gofynnwyd amdano i ddisodli ei system archwilio ariannol ac mae'n croesawu cydweithrediad SAC â chyrff archwilio eraill y DU i drafod y datrysiad mwyaf cost-effeithiol.

162. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr Amcangyfrif a addaswyd yn cynnwys £240,000 mewn incwm ffioedd ychwanegol o'i gymharu â'r Amcangyfrif gwreiddiol ac mae'n cydnabod barn yr Archwilydd Cyffredinol a SAC bod hyn yn cydymffurfio â'r rheol sy'n nodi "n[a] chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi" sy'n ofynnol o dan adran 23(5) o Ddeddf 2013. Fodd bynnag, cyn cymeradwyo'r Cynllun Ffioedd diwygiedig sy'n ofynnol o dan adran 24(6) o'r Ddeddf, mae'r Pwyllgor yn gofyn am fanylion ynghylch sut y bydd yr incwm ffioedd ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio i wneud gwaith archwilio'n uniongyrchol.

Casgliad 5. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr Amcangyfrif a addaswyd ar gyfer 2020-21, a geir fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'w Strategaeth Ystadau ddatblygu, gan gynnwys yr effaith ar raglen gyfalaf SAC a thargedau arbedion y cytunwyd arnynt.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am ei gwaith gyda chyrff archwilio partner mewn perthynas â'r rhaglen Dadansoddeg Data.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Amcangyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol, yn y dyfodol, yn nodi costau a manteision a ddisgwyllir ac a wireddir ar gyfer y rhaglen Dadansoddeg Data.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddisodli ei system archwilio ariannol, gan gynnwys arbedion ac effeithlonrwydd disgwylidig o'r buddsoddiad hwn.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, cyn i'r Cynllun Ffioedd ar gyfer 2020-21 gael ei osod gerbron y Cynulliad, y caiff manylion eu rhoi i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch sut y mae'r cynnydd £240,000 mewn incwm ffioedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gost o wneud gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2019. Mae trawsggrifiad o'r sesiynau tystiolaeth ar gael ar dudalen we'r Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
7 Tachwedd 2019	Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru Isobel Everett, Chair, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfa Archwilio Cymru Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol, Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 2: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru – Amcangyfrif a Addaswyd 2020-21

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Everett
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

7 Tachwedd 2019

Annwyl Adrian ac Isobel

Amcangyfrif o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid y bore yma i gyflwyno'ch Amcangyfrif. Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu, ar ôl ystyried eich Amcangyfrif a'r dystiolaeth a ddarparwyd gennych, na all y Pwyllgor osod eich Amcangyfrif fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Efallai eich bod hefyd yn ymwybodol bod y Pwyllgor eisoes wedi ystyried y ceisiadau cyllid gan y cyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol. Mae'r cyrff hynny wedi gofyn am y cynnydd ariannol a ganlyn:

- Comisiwn y Cynulliad – cynnydd arian parod o 2.7% (£1 miliwn) (ac eithrio cronfeydd penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau)
- Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus – cynnydd arian parod o 2.3% (£105,000) (ac eithrio'r costau ychwanegol o ganlyniad i Ddeddf yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019)

Ac eithrio'r cynnydd bob dwy flynedd yng nghyllid y Fenter Twyll Genedlaethol o £130,000, y bydd y Pwyllgor yn parhau i'w gefnogi, mae eich Amcangyfrif yn



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

gofyn am gynnydd o 7.8% (£615,000) i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru. Er ein bod yn cefnogi eich cynlluniau uchelgeisiol ac yn cydnabod y buddion posibl y bydd y cynlluniau hyn yn eu cynnig i'r sector cyhoeddus ehangach, rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn eich gwahodd i fyfyrio ar eich blaenoriaethau cyllido ac ystyried lle y gellir gwneud newidiadau i leihau'r galw ar Gornfa Gyfunol Cymru, yn agosach at lefel y cyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol.

Fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 20.22, rydym yn ymgynghori â chi ar ein gostyngiad gofynnol mewn cyllid, a byddem yn ddiolchgar pe gallech ailystyried eich Amcangyfrif 2020–21 a chyflwyno Amcangyfrif wedi'i addasu i'r Pwyllgor erbyn dydd Mawrth 12 Tachwedd 2019. Fodd bynnag, os hoffech gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'n cais, rhowch wybod i Glerc y Pwyllgor Cyllid (Georgina Owen, Georgina.Owen@cynulliad.cymru) cyn gynted â phosibl, heb fod yn hwyrach na 12 Tachwedd 2019.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid





WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Drwy'r e-bost: SeneddCyllid@cynulliad.cymru

Cyfeirnod: IE19009/AC166/caf

Dyddiad cyhoeddi: 15 Tachwedd 2019

Annwyl Llŷr

Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru o incwm a chostau am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021

Diolch am eich llythyr dyddiedig y 7^{fed} o Dachwedd 2019 yn egluro barn y Pwyllgor ynghylch ein Hamcangyfrif ar gyfer 2020-21.

Yn yr Amcangyfrif hwnnw, esboniodd Adrian ei uchelgais fel Archwilydd Cyffredinol i gyflawni newid strategol yng nghanolbwynt ei waith, ac fe wnaethom bwysleisio'n arbennig bwysigrwydd cael peth hyblygrwydd yn y modd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio'i hadnoddau i gyflawni'r gwaith hwnnw'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'n dda gennym weld bod y Pwyllgor yn gefnogol tuag at ein cynlluniau ac yn cydnabod y manteision posibl y bydd y rhain yn esgor arnynt ar gyfer y sector cyhoeddus ehangach. Rydym hefyd yn croesawu'n gynnes gefnogaeth y Pwyllgor i'r cynnydd bob dwy flynedd yng nghyllid ein Menter Twyll Genedlaethol sydd, yn hanesyddol, wedi cynhyrchu cyfradd ardderchog o enillion i'r pwrs cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn naturiol yn siomedig nad yw'r Pwyllgor, ar sail ei ystyriaeth o'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a ddarparwyd gennym hyd yma, wedi teimlo ei fod yn gallu gosod ein Hamcangyfrif fel y cafodd ei gyflwyno.

Yn eich llythyr, fe wnaethoch ein gwahodd i gyflwyno dadleuon eraill i'r Pwyllgor i'w gynorthwyo wrth iddo barhau i ystyried ein Hamcangyfrif am 2020-21, ac rydym yn ddiolchgar i chi am y cyfle i wneud hynny yn yr ymateb hwn.

Dros yr ychydig ddiwrnodiau diwethaf, rhoddodd ein Bwrdd a'n Tîm Arwain Gweithredol ystyriaeth frys i'ch llythyr, lle roeddech yn gofyn inni ystyried cynnydd canrannol mewn cyllid tebyg i'r hyn y gofynnwyd amdano gan Gomisiwn y Cynulliad (2.7%) a'r Ombwdsmon (2.1%).

Yn wahanol i'r cyrff hyn, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyllido oddeutu dwy ran o dair o'i gwariant drwy incwm ffioedd. Wrth gwrs, yn y pen draw, mae ein hincwm i gyd, fwy neu lai, - o ffioedd neu o Gronfa Gyfunol Cymru - yn deillio o'r bloc Cymreig.

Tra mae Comisiwn y Cynulliad a'r Ombwdsmon yn gofyn am gynyddiadau yng nghyfanswm eu cyllid blyneddol ar gyfer 2020-21, yn ein Hamcangyfrif ni, roeddem yn cyllidebu ar gyfer gostyngiad net yn ein costau rhedeg. Roedd y cynnydd y gofynnem amdano o Gronfa Gyfunol Cymru wedi ei osod yn erbyn gostyngiad cynlluniedig yn ein hincwm o ffioedd archwilio (oedd yn cael ei yrru'n rhannol gan ein rhaglen barhaus o arbedion effeithlonrwydd archwilio).

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymdrechion i amsugno cynyddiadau cost fel na fyddwn yn trosglwyddo'r rhain mewn ffioedd i'r cyrff sy'n cael eu harchwilio ac i symud cyllid, yn strategol, i Gronfa Gyfunol Cymru lle y gellir cyfiawnhau hynny - megis costau cysylltiedig â diogelwch seiber a'r agenda ddigidol. Ymgais oedd hon i oresgyn rhai o'r diffygion hyblygrwydd yn ein trefn gyllido statudol bresennol ac i roi cymhelliad i greu arbedion effeithlonrwydd archwilio pellach yn 2020-21 a thu hwnt.

Mae ein Hamcangyfrif ar gyfer 2020-21 yn rhagweld arbedion sylweddol o £476,000 am y flwyddyn. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, awgrymwyd y dylem hefyd ailgylchu arbedion o drosiant staff. Fe wnaethom egluro ein bod eisoes yn gwneud hynny drwy osod ein cyllidebau cyflogau staff yn net o drosiant staff (neu gorddi). Gallwn gadarnhau y bydd yr arbedion hyn y gellir eu hailgylchu yn rhoi £870,000 y flwyddyn nesaf. Fel y dywedodd ein Cyfarwyddwr Cyllid wrth y Pwyllgor, nid yw'r Bwrdd yn ystyried bod cynyddu'r targedau hyn ymhellach yn gynaliadwy'n ariannol.

Amcangyfrif addasedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21

Rydych wedi gofyn inni gyflwyno Amcangyfrif addasedig i'r Pwyllgor, ac mae hwn ynghlwm yn ffurf **Cwmpas Cyllideb diwygiedig**. Mae hwn yn cymryd lle paragraffau 100 i 103 ac Arddangosion 10 ac 11 ym mhapur ein Hamcangyfrif gwreiddiol (ar dudalennau 34 a 35 o'r ddogfen honno).

Fel y byddwch yn deall, yn yr ychydig amser oedd ar gael inni ers derbyn eich llythyr, ni fu'n ymarferol i ddiwygio'r naratif ategol a gyflwynwyd ar dudalennau 5 i 33 ein papur gwreiddiol. Yn amlwg, unwaith y bydd y Pwyllgor wedi cadarnhau ei fod yn cymeradwyo ein Hamcangyfrif, byddwn yn gwneud hynny.

Fel y dywedodd Adrian yn ei dystiolaeth, ein dewisiadau, os na chaiff ein Hamcangyfrif gwreiddiol ei gymeradwyo, yw torri i lawr ar rai o'n huchelgeisiau neu ollwng rhai ohonynt a/neu gynyddu incwm o ffioedd. Rydym yn esbonio isod y newidiadau yr ydym yn eu hawgrymu yn hyn o beth.

Torri i lawr ar ein huchelgeisiau

Yng ngoleuni cais y Pwyllgor:

- Rydym wedi gollwng ein cynigion i ymestyn cwmpas ein rhaglen ar gyfer hyfforddeion a phrentisiaid (gweler arddangosyn 8 a pharagraffau 68 i 75 y papur gwreiddiol), gan fod hon wedi ei hanelu'n bennaf at fanteision i'r sector cyhoeddus ehangach. Mae hyn yn destun siom, gan ein bod yn credu ym manteision cryf y fenter honno, ond rydym yn glir bod rhaid rhoi'r flaenoriaeth i adnoddau craidd ar gyfer gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Gostyngiad cost o £100,000)
- Rydym wedi cwtogi ein huchelgeisiau ar ein strategaeth ddigidol a dadansoddi data (gweler arddangosyn 7 a pharagraffau 50 i 57 y papur gwreiddiol). (Gostyngiad cost o £25,000)
- Rydym wedi adolygu ein cynlluniau ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn 2020-21 a byddwn yn gohirio peth o'r buddsoddiad yr oeddem yn bwriadu ei wneud mewn TGC er mwyn lleihau'r baich ar Gronfa Gyfunol Cymru. (Gostyngiad cost o £30,000)

Addasu'r balans rhwng incwm ffioedd a Chronfa Gyfunol Cymru.

Ffactor allweddol yn ein dull gwreiddiol oedd ceisio lleihau ffioedd i gyrff sy'n cael eu harchwilio lle roedd cyfiawnhad dros wneud hynny, a symud peth cyllid adnoddau o'r ffioedd a'i roi ar Gronfa Gyfunol Cymru. Ein safbwynt diwygiedig yw cynyddu ein hincwm ffioedd mewn ffordd gymesur, a derbyn y bydd ein huchelgeisiau yn cael yr effaith uniongyrchol o wella cost-effeithiolrwydd ac effeithiau ein gwaith archwilio i'r dyfodol.

Roedd ein papur gwreiddiol yn amcangyfrif gostyngiad o £711,000 (5%) yng nghyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn nesaf (yn cynnwys gwaith ffioedd a gwaith hawlio UE/Grantiau). Yn lle hynny, rydym yn awr yn cynnig gostyngiad o £471,000 (3%) yn ein hincwm. Felly, bydd cyfraddau ein ffioedd yn cynyddu ychydig, fel yr eglurir yn y nodyn sydd ynghlwm, er y bydd ein graddfeydd ffioedd yn dal i fod ychydig yn is na'r llynedd, gyda'r ffi archwilio ar gyfer pob corff unigol a archwilir yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Mae hyn yn cwrdd yn llawn â'r rheol 'dim mwy na'r gost lawn'.

Byddwn yn darparu Cynllun Ffioedd wedi ei ddiweddarau ar gyfer y Pwyllgor y mis nesaf.

Esboniad o'r diwygiadau i Gwmpas y Gyllideb

Mae crynodeb o'n Hamcangyfrif diwygiedig fel a ganlyn:

- Mae cyfanswm y gwariant sydd wedi ei gynnwys yn ein Hamcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2020-21 yn llai o £121,000 nag eleni (2019-20);
- A chau allan gostau bob dwy flynedd y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI), mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o £251,000 (1%) yn ein gwariant;
- Mae ein hadnoddau refeniw wedi eu lleihau o £22.127 miliwn i £22.002 miliwn (yn cynnwys NFI);
- Mae ein hadnoddau cyfalaf wedi eu lleihau o £260,000 i £230,000;
- Mae'r elfen benodol o gynnydd Cronfa Cyfunol Cymru (adnoddau ar wahân i adnoddau cronedig) yn awr wedi ei lleihau o 7.8% i 2.8%;
- Mae'r arian net y gofynnir amdano gan Gronfa Gyfunol Cymru wedi ei leihau o £395,000, sef i lawr o £8.843 miliwn i £8.448 miliwn.

Mae'n werth cloi drwy dynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith y gallai newid cymharol gyfyngedig i'n Hamcangyfrif diwygiedig, fel y'i heglurwyd uchod, ei gwneud yn bosibl cyflawni'r set lawn o gynigion gwreiddiol, gan gynnwys buddion symudedd cymdeithasol y cynllun hyfforddeion/prentisiaethau helaethach. Byddai hyn yn gofyn am gyllid pellach o £155,000 o Gronfa Gyfunol Cymru (cyfanswm o £375,000, neu 4.8%).

Wrth gwrs, os bydd ar y Pwyllgor angen rhagor o wybodaeth, rydym yn fwy na pharod i gynorthwyo.

Yn gywir

Isobel Everett

ISOBEL EVERETT

Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Adrian Crompton

ADRIAN CROMPTON

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Gofynion cyllideb a amcangyfrifir ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021

- 1 Dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i'r Gweinidogion gyflwyno Cynnig Cyllideb yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi'r defnydd o adnoddau, cadw incwm a thynnu arian allan o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer rhai personau perthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.
- 2 O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021, bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi:
 - swm yr adnoddau y gellir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol gan Swyddfa Archwilio Cymru (yn unol â'r gyllideb am y flwyddyn);
 - swm yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y gellir eu dal yn ôl yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru; a'r
 - swm y gellir ei dalu allan o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.
- 3 Mae'r gofynion hyn, na allant fod yn ddim ond amcangyfrifon oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, wedi eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: crynodeb o'r gofynion cyllideb a amcangyfrifir ar gyfer 2020-21

	£'000
Adnoddau, ar wahân i adnoddau cronedig, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ac ar weinyddiaeth Swyddfa Archwilio Cymru:	
• Refeniw	7,998
• Cyfalaf	230
Adnoddau cronedig o ffioedd a chostau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; adenillion costau eraill cysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol ac adennill costau a achoswyd ar ran trydydd parti - i gyd i gael eu defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig ynghyd â gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.	14,004

	£'000
Yr arian net y gofynnir amdano gan Gronfa Gyfunol Cymru i gwrdd â'r symiau net sydd i gael eu talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.	8,448

- 4 Mae **Arddangosyn 2** yn rhoi cysoniad rhwng cyfanswm yr adnodd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn amdano a'r swm net o arian y mae'n gofyn amdano ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021.

Arddangosyn 2: cysoni'r adnodd y gofynnir amdano gyda'r swm y gofynnir am ei dynnu allan o Gronfa Gyfunol Cymru

	£'000
Y cais net am adnoddau - refeniw a chyfalaf	8,228
Addasiad di-arian - dibrisiant	(280)
Addasiad di-arian - symudiadau mewn cyfalaf gweithio	500
Yr arian net y gofynnir amdano gan Gronfa Gyfunol Cymru i gwrdd â'r symiau net sydd i gael eu talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.	8,448

Cyfraddau Ffioedd Diwygiedig 2020-21

	Cyfradd ddiwygiedig (£ yr awr) 2020-21	Cyfradd cynllun ffioedd drafft (£ yr awr) 2020-21	Cyfradd (£ yr awr) 2019-20
Cyfarwyddwr Ymgysylltu	162	160	161
Rheolwr Archwilio	119	117	115
Prif Archwilydd	96	95	94
Uwch Archwilydd	77	76	73
Archwilydd	59	58	57
Hyfforddai graddedig	48	48	46
Prentis	37	36	46

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Everett
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Trwy e-bost

19 Tachwedd 2019

Annwyl Adrian ac Isobel

Amcangyfrif Diwygiedig o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Diolch i chi am eich llythyr ar 15 Tachwedd yn nodi'r Amcangyfrif diwygiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2020–21 yng ngoleuni barn y Pwyllgor ar eich cais cyllido gwreiddiol. Rwy'n ddiolchgar i chi a'ch tîm am roi ystyriaeth frys i'r mater hwn ac am esbonio'r newidiadau arfaethedig. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i ddod i gasgliad yn brydlon yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu i ofyn am rywfaint o eglurhad ar y cynigion diwygiedig.

Er fy mod yn cydnabod bod incwm ffioedd cyffredinol i fod i ostwng, mae eich llythyr yn nodi y byddai incwm ffioedd £240,000 yn fwy o dan y cynnig diwygiedig na'ch amcangyfrif gwreiddiol. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi a yw'r incwm hwn wedi'i ddyrannu ar gyfer unrhyw weithgareddau penodol y cynigiwyd eu hariannu o Gronfa Gyfunol Cymru o'r blaen.

Ar ben hynny, cynigiodd eich Amcangyfrif gwreiddiol newid £180,000 o waith wedi'i ariannu gan ffioedd i gael ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru yn lle. Byddwn yn croesawu eglurhad ar statws y cynnig hwn ac a yw'r Amcangyfrif diwygiedig bellach yn cynnwys trosglwyddo gweithgareddau a ariennir gan ffioedd i



weithgareddau a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru. Os yw hyn yn wir, byddwn yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch y cynnydd o £60,000 sy'n weddill mewn incwm ffioedd (sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng cael gwared ar y newid o £180,000 mewn cyllid a'r incwm ffioedd ychwanegol o £240,000).

Yn olaf, byddai'n cynorthwyo'r Pwyllgor yn fawr pe gallech grynhoi'r codiadau unigol diwygiedig y gofynnwyd amdanynt o Gronfa Gyfunol Cymru, fel y nodir yn Ffigur 5 yr Amcangyfrif gwreiddiol.

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb erbyn 9am ddydd Gwener 22 Tachwedd er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor a sicrhau cymeradwyaeth i'ch Amcangyfrif ar fyrder. Os bydd angen unrhyw eglurhad pellach arnoch, neu wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â: Georgina Owen, seneddfinance@cynulliad.cymru.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid





WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Mr Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Drwy'r e-bost: SeneddCyllid@cynulliad.cymru

Cyfeirnod: IE19011/AC167/caf
Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2019

Annwyl Llŷr

Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru o incwm a chostau am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021

Diolch am eich llythyr dyddiedig y 19^{eg} o Dachwedd 2019, oedd yn gofyn am eglurder pellach ar gynigion ein Hamcangyfrif diwygiedig.

Rydych yn gofyn a yw'r cynnydd o £240,000 mewn incwm ffioedd dan y cynnig diwygiedig wedi cael ei ddyrannu ar gyfer unrhyw weithgareddau penodol y cynigid gynt iddynt gael eu hariannu o Gronfa Gyfunol Cymru. Er mwyn symrlwydd ac er mwyn gallu cymharu, yr ateb i'r cwestiwn hwn yw Na – yn hytrach, rydym yn lleihau'r cyfraniad o £1.8 miliwn a dderbynnir o Gronfa Gyfunol Cymru tuag at ein costau rhedeg o £240,000, ac yn trosglwyddo hwn i'n ffioedd.

Ar dudalen 30 yn nogfen yr Amcangyfrif fe wnaethom egluro ein bod yn derbyn cyfraniad o £1.8 miliwn o Gronfa Gyfunol Cymru tuag at gostau rhedeg Swyddfa Archwilio Cymru. Mae hyn yn cynnwys costau megis cymorth technegol, sicrhau ansawdd a chydymffurfio, a hyfforddi a datblygu staff – costau y gellir cyfiawnhau eu cynnwys yn ein cyfraddau ffioedd dan y gofyniad 'dim mwy na'r gost lawn'. Er gwaethaf y newid hwn, rydym yn dal i ddisgwyl i'n hincwm cyffredinol o ffioedd ostwng o £470,000 yn 2020-21.

Gofynnwch ymhellach a fydd ein Hamcangyfrif diwygiedig yn dal i gynnwys y newid o £180,000 o waith a gyllidir drwy ffioedd i gael ei gyllido o Gronfa Gyfunol Cymru yn lle hynny.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i gyflawni'r uchelgeisiau a eglurwyd yn y Cynllun Blyneddol ar gyfer 2019-20 ac mae'r hyblygrwydd y mae'r cyllid hwn yn ei gynnig yn sylfaenol i hyn. Am y rheswm hwn, mae ein cynigion yn dal i ganiatáu ar gyfer y newid arfaethedig. Fel yn yr Amcangyfrif gwreiddiol, mae'r cynnydd gwirioneddol wedi ei gyfyngu i £95,000 ar ôl cymryd i ystyriaeth ddychwelyd £85,000 o gyllid a ddyrannwyd ar gyfer gwaith cysylltiedig â Brexit yn 2019-20.


Fel y gofynnwyd, rhoddir isod 'Arddangosyn 5' diwygiedig o ddogfen ein Hamcangyfrif.

Arddangosyn 5: newidiadau yng nghyllid Cronfa Gyfunol Cymru o 2019-20 i 2020-21

	Refeniw £'000	Cyfalaf £'000	Cyfanswm £'000
2019-20	7,668	210	7,878
Cyllid NFI Cylchol	130	-	130
Amcangyfrif gwaelodlin 2020-21	7,798	210	8,008
Newidiadau ar gyfer 2020-21			
Rhaglen gyfalaf	-	20	20
Gwaith archwilio a gyllidir mewn ffyrdd ar wahân i ffioedd (£180,000 o gynnydd a thynnu £85,000 a ddychwelir)	95		95
Cyllid penodol i gynnal Swyddfa Archwilio Cymru (gostyngiad yn y gwariant arfaethedig ar waith dadansoddi data/diogelwch seiber)	225	-	225
Prosiectau penodol er budd y sector cyhoeddus ehangach (dileu cyllid ychwanegol ar gyfer Datblygu Sgiliau Ariannol)	-	-	-
Cyfraniad at gostau rhedeg, sy'n gyfraniad rhannol ar gyfer cytundeb cyflogau	120	-	120
Cyfraniad at gostau rhedeg i gael ei adfer o ffioedd	(240)		(240)
Cyfanswm Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru 2020-21	7,998	230	8,228
Newid o'r waelodlin	200	20	220

Wrth gwrs, os bydd ar y Pwyllgor eisiau unrhyw wybodaeth bellach, rydym yn barod iawn i gynorthwyo.

Yn gywir



ISOBEL EVERETT

Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru



ADRIAN CROMPTON

Archwilydd Cyffredinol Cymru